

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

Rhagfyr 2019



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddPPIA@cynulliad.cymru**

Twitter: **[@SeneddPPIA](https://twitter.com/SeneddPPIA)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

Rhagfyr 2019



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA

Cadeirydd y Pwyllgor:



Lynne Neagle AC
Llafur Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Dawn Bowden AC
Llafur Cymru



Hefin David AC
Llafur Cymru



Suzy Davies AC
Ceidwadwyr Cymreig



Janet Finch-Saunders AC
Ceidwadwyr Cymreig



Siân Gwenllïan AC
Plaid Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	5
Argymhellion.....	7
1. Cefndir yr ymchwiliad.....	10
Cylch gorchwyl.....	10
Tystiolaeth ac argymhellion.....	11
2. Sut mae Deddf AU (Cymru) 2015 yn gweithio.....	12
Sefydliadau a reoleiddir.....	13
Cynlluniau ffioedd a mynediad	13
Darpariaethau allweddol eraill yn y Ddeddf.....	14
Diffyg fframwaith rheoleiddio cydlynol	16
Dynodi cyrsiau at ddibenion cymorth i fyfyrwyr	16
3. Bylchau yn y system rheoleiddio addysg uwch.....	18
Dynodi cyrsiau at ddibenion cymorth i fyfyrwyr	19
Anghysonderau yn y ddeddfwriaeth.....	24
Ein barn ynglŷn â system reoleiddio Deddf 2015.....	25
Gwersi ar gyfer y bil addysg drydyddol.....	26
4. Pwerau CCAUC o dan Ddeddf 2015	29
Defnyddioldeb a chymesuredd pwerau a sancsiynau	29
Pwerau i fynd i'r afael â materion llywodraethu	31
Ein barn ynglŷn â'r pwerau a'r sancsiynau yn Neddf 2015.....	32
Gwersi ar gyfer y bil addysg drydyddol.....	33
5. Cynlluniau ffioedd a mynediad.....	36
Cydweithio ac ehangu mynediad	38
Ein barn ynglŷn â chynlluniau ffioedd a mynediad Deddf 2015.....	39
Gwersi ar gyfer y bil addysg drydyddol.....	40
6. Rheoleiddio, annibyniaeth a buddiannau myfyrwyr	42
Sail rheoleiddio.....	42

Annibyniaeth sefydliadol a blaenoriaethau cenedlaethol.....	44
Lefelau risg cymharol.....	45
Ein barn ynglŷn â rheoleiddio, annibyniaeth a buddiannau myfyrwyr.....	46
Gwersi ar gyfer y bil addysg drydyddol.....	47
7. Gweithredu a phontio.....	49
Ein barn ynglŷn â gweithredu a phontio.....	50
Gwersi ar gyfer y bil addysg drydyddol.....	51
Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.....	54
Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.....	55

Rhagair y Cadeirydd

Un ffocws yn Neddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 oedd sicrhau parhad gyda system reoleiddio bresennol ond wedi'i gwanhau yn ôl pob golwg a oedd yn seiliedig ar grantiau - nid oedd yn Ddeddf a oedd yn pennu agenda unigryw nac uchelgeisiol.

Ni allai'r cyferbyniad â chynlluniau cyhoeddedig ar gyfer y bil addysg drydyddol arfaethedig fod yn fwy amlwg. Er bod Deddf AU 2015 wedi pwysleisio parhad, mae disgwyl y bydd trawsnewid yn ganolog i'r bil newydd. Disgwyliwn weld bil sy'n ceisio ail-lunio'r sector addysg ôl-16 yng Nghymru yn sylweddol, gan ddod â darparwyr amrywiol ynghyd mewn sector a fydd â deinameg wahanol iawn o dan Gomisiwn hyd-braich newydd.

Gyda newid o'r fath yn yr arfaeth, roeddem am sicrhau bod y gwersi o'r Ddeddf AU yn cael eu deall a'u dysgu, yn enwedig gan bod y Gweinidog wedi egluro ei bod yn disgwyl cario rhannau o'r Ddeddf ymlaen i'r bil newydd. Mae hyn wedi golygu gwneud gwaith craffu ar ôl deddfu ar y Ddeddf ychydig yn gynharach nag y byddem yn ei wneud fel rheol, ond gyda'r bil yn cael ei ddisgwyl yn gynnar yn 2020, yn awr neu byth oedd hi.

Clywsom feirniadaeth eithaf sylweddol o'r Ddeddf AU, a honno'n canolbwyntio'n bennaf ar ei methiant i greu system gyflawn o reoleiddio AU, y modd anfoddhaol y mae'n mynd i'r afael â buddiannau myfyrwyr, a'r ffaith nad yw'n darparu ffordd effeithiol o alinio darparwyr y tu ôl i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r materion hyn o gymaint o bwys, ac yn gymaint o ran o wead Deddf 2015, fel ein bod yn cytuno â bwriad y Gweinidog i'w diddymu. Gan ei bod yn mynd i gael ei diddymu, mae'r argymhellion a wnawn yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â hi'n ymwneud â'r hyn sy'n bosibl yn realistig yn ein barn ni cyn sefydlu unrhyw Gomisiwn newydd ar gyfer addysg drydyddol.

Er ei bod yn hanfodol ein bod yn cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd o'r Ddeddf AU i'r bil addysg drydyddol, mae'n bwysig hefyd peidio ag achub y blaen ar y craffu manwl a fydd yn digwydd pan gyflwynir y bil newydd i'r Cynulliad. Felly rydym wedi cyfyngu ein hargymhellion ar y bil newydd i egwyddorion pwysig, egwyddorion yr ydym yn disgwyl eu gweld yn cael eu hadlewyrchu yn y bil newydd pan gaiff ei gyflwyno yn 2020.

Mae'n amlwg i ni bod rhaid i'r bil newydd ddarparu ffordd o sicrhau bod darparwyr, yn anad dim eu cyrff llywodraethu, yn cael eu cymell i gofleidio unrhyw flaenoriaethau cenedlaethol a'u cyfuno'n ddi-dor ac yn ystyrllon yn eu


strategaethau eu hunain - mae'r dull cynllun ffioedd a mynediad wedi methu yn hyn o beth.

Mae hefyd yn amlwg i ni bod rhaid bod â chysyniad gwell o lawr o ran beth yw buddiannau myfyrwyr ac y dylai'r bil geisio eu diogelu. Nid yw'r cysyniad cyfredol mewn deddfwriaeth yn cyd-fynd o gwbl â'r pethau y gwyddom eu bod yn wirioneddol bwysig i fyfyrwyr; pethau fel: darpariaeth iechyd meddwl, eu lles cyffredinol, cael mynediad at lety fforddiadwy, gwerth am arian, cyfleusterau ar y campws, cyflogadwyedd, gwasanaethau myfyrwyr ac yn y blaen.

Gallwn wneud yn well.

Er bod rhaid diogelu cyllid cyhoeddus a'i fuddsoddi'n ddoeth, rhaid inni beidio â cholli ffocws ar y dysgwyr a'r myfyrwyr y mae'n debygol y byddant, ymhen ychydig flynyddoedd, yn mynd i mewn i sector addysg drydyddol newydd yn llawn disgwyliaid. Roedd dysgwyr yn ganolog i'r adroddiad gan yr Athro Hazelkorn a ddechreuodd y siwrnai hon tuag at sector diwygiedig - dysgwyr gydol oes o bob oed, rhyw a thalent, a fyddai'n gallu symud yn ddi-dor ar draws darparwyr ar lwybrau dysgu a dulliau cyflwyno a oedd fwyaf addas iddynt.

Rydym yn awyddus iawn nad yw'r uchelgais ysbrydoledig hwn ar gyfer dysgu gydol oes trawsnewidiol a'r hyn y mae hyn yn ei olygu i bobl Cymru yn cael ei wasgu a'i dynnu allan o'r bil addysg drydyddol. Mae'r Ddeddf AU yn canolbwyntio ar ddarparwyr; rhaid i'r Ddeddf nesaf ganolbwyntio'n fwy ar ddysgwyr.



Lynne Neagle AC
Cadeirydd

Argymhellion

Argymhelliad 1. Bod Llywodraeth Cymru yn egluro'r rhesymeg sy'n sail i'r rheoliadau cyllido myfyrwyr sy'n caniatáu i sefydliadau nad ydynt yn cael eu hariannu'n gyhoeddus gan CCAUC gael dynodiad awtomatig ar gyfer eu darpariaeth ran-amser ac ôl-raddedig, a beth yw manteision ac anfanteision y dull hwn.....Tudalen 26

Argymhelliad 2. Bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut y mae, (neu sut y byddai), yn cadw goruchwyliaeth dros ddarpariaeth ran-amser ac ôl-raddedig a ddynodwyd yn awtomatig lle nad yw'r grant cylchol yn tarddu o CCAUC.
.....Tudalen 26

Argymhelliad 3. Bod Llywodraeth Cymru yn darparu cofrestr o'r holl gyrsiau sy'n berthnasol i argymhelliad 2, gyda phob cofnod cwrs yn nodi'r trefniadau sicrhau ansawdd sy'n berthnasol a'r corff sy'n atebol am oruchwyliaeth. Dylai'r gofrestr hon hefyd gynnwys manylion yr holl gyrsiau a ddynodwyd yn benodol, dylid ei rhoi ar-lein o fewn 90 diwrnod i gyhoeddi'r adroddiad hwn, a dylai gael ei diweddarau'n rheolaidd.....Tudalen 26

Argymhelliad 4. Bod Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i hymateb i'r adroddiad hwn, yn darparu manylion unrhyw achos lle mae Gweinidogion Cymru wedi dynodi cwrs addysg uwch yn unigol, yn groes i argymhelliad CCAUC. Dylai'r cyfiawnhad dros unrhyw benderfyniadau o'r fath gael ei nodi yn yr ymateb hefyd.....Tudalen 26

Argymhelliad 5. Bod Llywodraeth Cymru yn myfyrio ynghylch y gwersi o natur gyfarwyddol a darniog y fframwaith rheoleiddio a grëwyd gan Ddeddf 2015 ac yn sicrhau bod y bil addysg drydyddol arfaethedig yn creu system ôl-16 gydlynol ac integredig. Dylai'r bil hwn gael ei ddrafftio i greu fframwaith deddfwriaethol sy'n ddigon hyblyg i ymdopi â newidiadau annisgwyl a allai ddigwydd ymhen blynnyddoedd neu ddegawdau yn y dyfodol.....Tudalen 28

Argymhelliad 6. Bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i CCAUC rannu unrhyw ganfyddiadau allweddol neu gamau gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad o lywodraethu yn y sector sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan Gillian Camm ar ran darparwyr.....Tudalen 33

Argymhelliad 7. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau, yn amodol ar fesurau diogelu, atebolrwydd ac ymgynghori, bod gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (y Comisiwn) y gallu i ddychmygu sefydlu'r pwerau, ymyriadau, cymhellion a sancsiynau sy'n ofynnol yn ei dyb ef ar gyfer rheoleiddio effeithiol ar sector addysg drydyddol amrywiol a deinamig a fydd yn esblygu dros amser

mewn ffyrdd annisgwyl. Yn gryno, rhaid caniatáu i'r Comisiwn greu'r hyn y mae CCAUC yn ei alw'n "beirianwaith rheoleiddio"..... Tudalen 34

Argymhelliad 8. Bod y bil addysg drydyddol yn caniatáu i'r Comisiwn bennu'r amodau ar gyfer llywodraethu da ac nad yw'n rhwystro ei allu i ymyrryd mor gynnar â phosibl mewn achosion tybiedig o lywodraethu gwael neu aneffeithiol. Tudalen 35

Argymhelliad 9. Bod CCAUC yn darparu copi o unrhyw werthusiadau o gynlluniau ffioedd a mynediad y mae wedi'u cynnal hyd yma. Tudalen 40

Argymhelliad 10. Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CCAUC a rhanddeiliaid eraill tuag at y nod o adnabod sut y gellir diwygio'r isdeddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddf 2015 mewn perthynas â chynlluniau ffioedd a mynediad er mwyn:

- lleihau eu baich gweinyddol cyn belled ag y bo modd;
- cryfhau eu heffeithiolrwydd. Tudalen 40

Argymhelliad 11. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y bil addysg drydyddol newydd yn galluogi'r Comisiwn i osod amgylchedd rheoleiddio ac ariannu lle mae darparwyr yn cael eu cymell i fabwysiadu canlyniadau'n ddi-dor yn eu strategaethau eu hunain, gan felly sicrhau bod cyrff llywodraethu a'u darparwyr wedi'u halinio'n llwyr â hwy..... Tudalen 41

Argymhelliad 12. Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio ei pholisi dynodi cyrsiau penodol fel ei bod yn ystyried cysyniad ehangach a mwy rhesymol o fuddiannau myfyrwyr na'r model "trothwy" cyfredol o ansawdd cyrsiau, cynaliadwyedd ariannol a "budd y cyhoedd" (a ddiffinnir yn ymarferol yng nghanllawiau CCAUC fel ehangu mynediad)..... Tudalen 47

Argymhelliad 13. Bod Llywodraeth Cymru, yn y Bil addysg drydyddol, yn newid y pwyslais o reoleiddio ar sail faint o arian cyhoeddus sydd yn y fantol, i fwy o ffocws ar reoleiddio yn seiliedig ar ddealltwriaeth resymol, gynhwysol a pherthnasol o fuddiannau myfyrwyr, gan sicrhau bod y Bil yn eu cefnogi ac yn eu diogelu. Dylai hyn ei gwneud yn bosibl i unrhyw ddarparwr ôl-16 a reoleiddir allu bodloni disgwyliadau rhesymol myfyrwyr..... Tudalen 48

Argymhelliad 14. Bod Llywodraeth Cymru, drwy'r bil addysg drydyddol, yn sicrhau bod mecanweithiau llais dysgwyr addas yn cael eu sefydlu a'u cynnal gan yr holl ddarparwyr a reoleiddir gan y Comisiwn, a bod yn rhaid i'r Comisiwn ei hun

roi sylw dyledus i lais myfyrwyr. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr hyn sy'n gyfystyr â buddiannau myfyrwyr yn gallu esblygu dros amser. Tudalen 48

Argymhelliad 15. Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi bil addysg drydyddol drafft i alluogi rhanddeiliaid i ymgysylltu â manylion y ddeddfwriaeth arfaethedig. Tudalen 52

Argymhelliad 16. Bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y mae'n bwriadu sicrhau parhad busnes o ran swyddogaethau beunyddiol hanfodol y cyrff rheoleiddio ac ariannu cyfredol (megis gwneud taliadau cyllid rheolaidd arferol i ddarparwyr) yn ystod y cyfnod pontio i'r Comisiwn newydd..... Tudalen 52

Argymhelliad 17. Bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut y mae'n bwriadu sicrhau nad yw'r atgofion corfforaethol yn CCAUC a Llywodraeth Cymru yn cael eu colli wrth bontio i'r Comisiwn newydd. Tudalen 53

Argymhelliad 18. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y bil addysg drydyddol yn darparu ar gyfer trefniadau pontio addas a bod Comisiwn cysgodol yn cael ei sefydlu cyn gynted ag sy'n ymarferol i helpu i ddarparu ar gyfer pontio'n ddidrafferth i'r corff newydd..... Tudalen 53

Argymhelliad 19. Bod Llywodraeth Cymru yn darparu copïau o werthusiadau'r flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn yr ymrwymodd iddynt ym Memorandwm Esboniadol Deddf 2015. Os na chynhaliwyd yr adolygiadau hyn, dylid darparu esboniad o'r rhesymau dros hynny..... Tudalen 53

1. Cefndir yr ymchwiliad

Cafodd Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 Gydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2015 ac fe'i gweithredwyd yn llawn o fis Awst 2017. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno bil addysg drydyddol yn gynnar yn 2020 a fyddai'n diddymu Deddf 2015 ond hefyd yn dwyn ymlaen rai rhannau ohoni i'r ddeddfwriaeth newydd.¹ Roeddem yn awyddus i ddysgu'r gwersi o Ddeddf 2015 cyn y cyflwynir y bil newydd.

1. Yn 2018 fe gytunom ni wneud gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (Deddf 2015). Nod y gwaith hwn oedd deall y gwersi o lunio a gweithredu Deddf 2015 a'u cymhwyso i'r bil addysg drydyddol y disgwylir iddo gael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru yn 2020.
2. Gan mai dim ond ers ychydig dros ddwy flynedd y gweithredwyd Deddf 2015 yn llawn, nid oes digon o amser wedi mynd heibio i'n galluogi i gynnal asesiad llawn o'i llwyddiant. Serch hynny, gan mai dim ond ffenestr gyfyngedig iawn sy'n bodoli bellach fel cyfle i ddysgu gwersi o Ddeddf 2015 cyn cyflwyno'r bil addysg drydyddol y flwyddyn nesaf, mae ein hadroddiad yn ceisio nodi prif fanteision ac anfanteision Deddf 2015 gyda golwg ar wella deddfwriaeth yn y dyfodol.

Cylch gorchwyl

3. Fe gytunon ni i ystyried y canlynol:
 - a yw'r Ddeddf yn cyflawni ei nodau gwreiddiol, ac os na, pam;
 - a gyflawnwyd y costau gwreiddiol, ac os na, pam;
 - a yw'r Ddeddf wedi cyflawni gwerth cyffredinol am arian;
 - pa mor dda y gweithredwyd y Ddeddf a pha mor dda y mae'n gweithio'n ymarferol, gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol;

¹ Bu enwau ac acronymau amrywiol ar y diwygiadau: yn yr adroddiad hwn bydd y term bil PCET, diwygiadau PCET, a bil addysg drydyddol yn cael eu defnyddio. Mae PCET yn sefyll am Addysg Ôl-orfodol ac Addysg Drydyddol (sector yng nghynigion Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys addysg uwch, addysg bellach, dysgu seiliedig-ar-waith, dysgu oedolion yn y gymuned ac unedau 6^{ed} dosbarth).

- y canlyniadau o adolygiadau ffurfiol Llywodraeth Cymru o'r Ddeddf; ac
- unrhyw arfer da a gwersi a ddysgwyd o'r Ddeddf a'r gwaith paratoi (h.y. y broses o lunio'r Ddeddf, ei drafftio, ymgynghori arni ac ati).

Tystiolaeth ac argymhellion

4. Fe wnaethom gynnal ymgynghoriad ysgrifenedig rhwng 8 Mawrth 2019 a 3 Mai 2019, gan gael 12 ymateb. Hefyd, gwnaethom gynnal dwy sesiwn tystiolaeth lafar ar 18 Gorffennaf 2019 a 26 Medi 2019. Ceir rhestr o ymatebion ysgrifenedig a thystion yn Atodiad A a B yn y drefn honno. Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r broses hon.

5. Gwnaethom gasglu tystiolaeth gyda golwg ar gyflawni dau nod:

- 1.** Dysgu gwersi o Ddeddf 2015 a gwneud argymhellion priodol ar gyfer y trefniadau cyfredol o ystyried bod y Ddeddf yn mynd i gael ei diddymu;
- 2.** Dylanwadu ar baratoi'r bil addysg drydyddol yng ngoleuni'r gwersi hynny.

6. Wrth baratoi ein hargymhellion, rydym wedi bod yn ymwybodol o'r gwaith craffu mwy cynhwysfawr ar y bil addysg drydyddol a fydd yn cael ei wneud yn dilyn ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Cynulliad. Bydd hyn o reidrwydd yn cynnwys ystod ehangach o randdeiliaid na'r rhai sydd wedi cyfrannu at y gwaith mwy cul a rhagarweiniol hwn. Yng ngoleuni hyn, nid yw ein hadroddiad yn cynrychioli ein barn ynglŷn â'r diwygiadau arfaethedig yn ei chyfanrwydd, ac nid yw'n cynrychioli unrhyw gasgliadau terfynol pe bai'r bil addysg drydyddol yn cael ei atgyfeirio atom. Yn hytrach, cyflwynir ein hargymhellion fel egwyddorion pwysig yr ydym yn disgwyl eu gweld yn cael eu hadlewyrchu yn y bil addysg drydyddol newydd.

2. Sut mae Deddf AU (Cymru) 2015 yn gweithio

Nid yw Deddf 2015 ei hun yn creu system reoleiddio gyflawn ar gyfer addysg uwch yng Nghymru - dim ond darpariaeth israddedig lawn-amser y mae'n ei chynnwys. Clywsom fod y system reoleiddio ehangach, sy'n cynnwys darpariaeth ran-amser ac ôl-raddedig, mewn gwirionedd yn dibynnu ar y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr, a gwneir y rhain o dan Ddeddf wahanol.

7. Cyflwynwyd y Bil Addysg Uwch (Cymru) ar y pryd yn y Cynulliad Cenedlaethol ar 19 Mai 2014 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 12 Mawrth 2015. Daeth i rym yn llawn o 1 Awst 2017 gyda threfniadau trosiannol ar waith cyn hyn.² Yn sail i'r Ddeddf mae saith set o reoliadau sydd, ymhlith materion eraill, yn ymdrin â'r lefel uchaf o ffioedd dysgu y gellir eu codi ar fyfyrwyr ar gyfer mathau penodol o gyrsiau.³

8. Cyn Deddf 2015 roedd y system reoleiddio ar gyfer darparwyr yn seiliedig ar yr amodau a thelerau yr oedd CCAUC yn eu rhoi ynghlwm wrth ei grantiau cyllido i sefydliadau. O 2012/13, dechreuwyd dargyfeirio cyllid oddi wrth grantiau CCAUC ac yn lle hynny dechreuwyd eu rhoi i ddarparwyr trwy'r canlynol:

- benthyciadau ffioedd dysgu; a hefyd
- y grant ffioedd dysgu a delir yn uniongyrchol iddynt gan Lywodraeth Cymru a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ar ran myfyrwyr unigol.

9. Ystyriwyd ei bod yn bosibl i rai sefydliadau ddechrau cael lefelau mor fach o grantiau fel y byddai'n anghymesur â'r dyletswyddau a'r pwerau rheoliadol a osodir arnynt, neu na fyddai ei atal neu ei dynnu'n ôl yn cael unrhyw effaith sylweddol ar ddarparwr, gan erydu gallu CCAUC i'w rheoleiddio. Gyda'r risg y byddai'r system reoleiddio sy'n seiliedig ar delerau ac amodau yn cael ei gwanhau neu hyd yn oed yn methu mewn rhai achosion, ceisiodd Llywodraeth Cymru, trwy Ddeddf 2015, greu fframwaith rheoleiddio a oedd yn dibynnu ar rywbeth heblaw cyllid grant a oedd yn mynd yn llai ac yn llai.

² [Gwefan.CCAUC](#)

³ [Gwefan.CCAUC](#)

- 10.** Nod y Ddeddf oedd cyflawni'r pedwar amcan canlynol:
- 1.** “sichrau trefn reoleiddio gadarn a chymesur ar gyfer sefydliadau yng Nghymru y mae eu cyrsiau'n cael eu cefnogi gan grantiau a benthyciadau Llywodraeth Cymru;
 - 2.** diogelu'r cyfraniad a wneir at les y cyhoedd sy'n deillio o gymhorthdal ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch;
 - 3.** cynnal ffocws cryf ar fynediad teg at addysg uwch; a
 - 4.** gwarchod a diogelu annibyniaeth prifysgolion a rhyddid academiaidd.⁴

Sefydliadau a reoleiddir

11. Mae'r Ddeddf yn creu trefn reoleiddio newydd a gwirfoddol sy'n seiliedig ar y cysyniad o “sefydliadau a reoleiddir”. Trwy wneud cais am statws “sefydliad a reoleiddir” a chael y statws hwnnw, mae darparwr yng Nghymru yn dod yn rhan o system reoleiddio Cymru. Daw darparwr yn sefydliad a reoleiddir trwy gyflwyno cynllun ffioedd a mynediad i CCAUC, ac yna cael cymeradwyaeth CCAUC i'r cynllun hwnnw.

12. Yn gyfnewid am fod yn ddarostyngedig yn awr i ddyletswyddau, pwerau a chyfyngiadau'r system reoleiddio, mae sefydliad a reoleiddir i bob pwrpas yn sichrau mynediad at lefelau uwch o arian cyhoeddus / cymhorthdal o dan y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr. Y rheswm dros hyn yw y gall myfyrwyr yn awr gael benthyciad ffioedd dysgu hyd at £9,000 ar gyfer cyrsiau yng Nghymru, sy'n daladwy yn uniongyrchol i'r darparwr cyn cwblhau'r cwrs. Dim ond benthyciadau ffioedd dysgu hyd at £6,165 ar gyfer cyrsiau yng Nghymru y gall myfyrwyr sy'n dymuno astudio mewn darparwr nad yw'n sefydliad a reoleiddir gael mynediad atynt.

Cynlluniau ffioedd a mynediad

13. Cynllun ffioedd a mynediad cymeradwy yw'r porth i'r system a reoleiddir: trwy fod ag un daw darparwyr yn sefydliadau a reoleiddir. Er bod cynlluniau ffioedd a mynediad i bob pwrpas yn datgloi lefelau uwch o gymorth ariannol i fyfyrwyr ar gyfer darparwyr, maent yn gwneud hynny trwy rwympo darparwyr i fuddsoddi cyfran o'r incwm ychwanegol hwnnw i weithgarwch ehangu mynediad.

⁴ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Esboniadol diwygiedig](#), Bil Addysg Uwch

14. Yn ogystal â buddsoddi mewn ehangu mynediad, mae cynlluniau ffioedd a mynediad hefyd yn rhwymo darparwyr i beidio â chodi mwy nag uchafswm lefel ffioedd ar gyfer cyrsiau penodol – sydd ar hyn o bryd yn berthnasol i gyrsiau israddedig / TAR llawn-amser yn unig. £9,000 yw'r terfyn uchaf hwn a bennwyd gan reoliadau (er y gall darparwyr godi llai na hyn os dymunant).

15. Mae cynlluniau ffioedd a mynediad eu hunain yn ceisio mynd i'r afael â dau brif fater:

- y ffioedd israddedig / TAR llawn-amser a fydd yn cael eu codi ar fyfyrwyr y flwyddyn honno (lefelau ffioedd y mae'n rhaid cadw atynt am y flwyddyn honno ac y mae'n rhaid iddynt beidio â bod yn fwy na £9,000); a hefyd
- yr amcanion, y ddarpariaeth a'r buddsoddiad y bydd y darparwr yn eu neilltuo i weithgarwch ehangu mynediad.

16. Mae CCAUC yn gosod disgwyliad y bydd darparwyr yn gwario cyfran benodol o'u hincwm o ffioedd a reoleiddir ar eu hamcanion ehangu mynediad. Ar hyn o bryd mae'r rhwng 14 a 17% o incwm ffioedd israddedig a TAR llawn-amser yw'r lefel hon.

17. Unwaith y bydd cynllun wedi'i gymeradwyo ac mewn grym, mae gan CCAUC bwerau i fonitro cydymffuriad sefydliad a reoleiddir â'i gynllun a'i effeithiolrwydd. Mae gan CCAUC bwerau hefyd i gyhoeddi "cyfarwyddiadau" (y gellir eu gorfodi trwy waharddeb) mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio â "gofynion cyffredinol" cynllun cymeradwy, neu dynnu cymeradwyaeth i gynllun yn ôl ar ganol blwyddyn. Byddai tynnu cymeradwyaeth yn ôl fel hyn yn gorfodi'r darparwr allan o'r system reoleiddio a grëwyd gan Ddeddf 2015.

Darpariaethau allweddol eraill yn y Ddeddf

18. Ar ôl i ddarparwr ddod yn sefydliad a reoleiddir a dod yn rhan o'r system reoleiddio, daw'n ddarostyngedig i ddyletswyddau amrywiol ac yn ddarostyngedig i bwerau CCAUC.

19. Yn fras, mae pwerau CCAUC yn ymwneud â:

- monitro cynlluniau ffioedd a mynediad (fel y trafodwyd uchod);
- terfynau ffioedd dysgu;
- ansawdd darpariaeth sefydliad a reoleiddir;

- rheoli materion ariannol sefydliad a reoleiddir; a
- gallu gwneud ymyriadau (cyhoeddi cyfarwyddiadau a gosod cosbau) mewn perthynas â'r materion uchod.

20. Yn ymarferol, mae CCAUC yn rhoi'r gwaith sicrhau ansawdd "ar gontract allanol" i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd,⁵ corff sy'n gweithredu ledled y DU, ac mae ganddo drefniant gydag Estyn⁶ ynghylch y ddarpariaeth AB yn y ddau goleg AB perthnasol y mae Estyn yn eu harolygu ar ran CCAUC.

21. Mae gan CCAUC bwerau i weithredu os yw'n credu bod ansawdd darpariaeth sefydliad a reoleiddir yn annigonol neu ei fod yn debygol o ddod yn annigonol.

22. Ymhlith pwerau rheoleiddio CCAUC mae pwerau mewn perthynas â materion ariannol sefydliadau. Mae Deddf 2015 yn nodi bod rhaid i sefydliadau a reoleiddir gydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol,⁷ dogfen a baratowyd gan CCAUC o dan y Ddeddf ac a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

23. Mae'r Cod Rheolaeth Ariannol yn nodi'r gofynion sy'n ymwneud â threfnu a rheoli materion ariannol y mae'n rhaid i sefydliadau a reoleiddir ymlynu wrthynt.

24. Mae gan CCAUC bwerau i gyhoeddi cyfarwyddiadau os nad yw sefydliadau a reoleiddir yn cydymffurfio neu os ydynt yn annhebygol o gydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol.

25. O dan y Ddeddf rhaid i CCAUC "nodi sut rydym yn cynnig arfer ein swyddogaethau ymyrryd". Mae'r prosesau hyn a'i ddull gweithredu wedi'u nodi yn ei "Ddatganiad o Ymyriad".⁸ Mae'r datganiadau'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut y bydd CCAUC yn defnyddio'r pwerau sy'n ymwneud ag ansawdd a rheolaeth ariannol.

26. Ymagwedd CCAUC tuag at ymyrryd yw gweithredu mecanwaith cynyddol sy'n cynnwys deialog gynnar a gweithio mewn partneriaeth cyn symud i ddefnyddio'i bwerau ffurfiol. Mae gan CCAUC hefyd hawliau mynediad ac arolygu o dan y Ddeddf sydd hefyd yn gosod dyletswydd ar gyrff llywodraethu sefydliadau a reoleiddir i gydweithredu â chyfarwyddiadau CCAUC.

⁵ Gwefan yr [Asiantaeth Sicrhau Ansawdd](#)

⁶ HEFCW ac Estyn, [Protocol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth rhwng HEFCW ac Estyn](#)

⁷ HEFCW, [Cod Rheolaeth Ariannol](#)

⁸ HEFCW, [Datganiad Ymyrraeth](#)

Diffyg fframwaith rheoleiddio cydlynol

27. Mae Deddf 2015 yn rheoleiddio darpariaeth israddedig lawn-amser ac yn creu system reoleiddio wedi'i hangori ar y math penodol hwn o ddarpariaeth. Nid yw Deddf 2015 yn cynnig fframwaith rheoleiddio cynhwysfawr sy'n ymestyn i ddarpariaeth ran-amser neu ôl-raddedig, ac nid yw'n berthnasol trwy ddiffiniad i ddarparwyr heb gynllun ffioedd a mynediad cymeradwy ychwaith (nid oes angen cynllun ffioedd a mynediad i ddarparu addysg uwch yng Nghymru).

28. Mewn gwirionedd mae'r fframwaith rheoleiddio cyffredinol ar gyfer yr holl ddarpariaeth addysg uwch yng Nghymru yn ganlyniad i sawl darn o ddeddfwriaeth sy'n rhyngweithio â'i gilydd, sef:

- Deddf 2015 ei hun;
- Y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr a wnaed o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998;
- Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 sy'n caniatáu i CCAUC atodi telerau ac amodau wrth gyllid grant ar gyfer darparwyr (yn ei hanfod yr "hen" system cyn Deddf 2015 sy'n dal i weithredu ochr yn ochr â Deddf 2015 gan bod sefydliadau'n dal i gael grantiau gan CCAUC); ac
- Unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n darparu bod darparwyr addysg yng Nghymru'n gallu cael eu hariannu trwy grant cylchol (h.y. colegau addysg bellach) gyda thelerau ac amodau cysylltiedig.

Dynodi cyrsiau at ddibenion cymorth i fyfyrwyr

29. Nid yw'r rheolau sy'n ymwneud â chymorth i fyfyrwyr wedi'u nodi yn Neddf 2015 ei hun, ond mewn rheoliadau a wneir o dan ddarn gwahanol o ddeddfwriaeth: Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.

30. O dan y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr, ni all myfyriwr gael gafael ar gymorth i fyfyrwyr (benthyciadau i fyfyrwyr a chymorth cynhaliaeth) oni bai bod y cwrs y maent am gofrestru arno wedi'i "ddynodi" gan Weinidogion Cymru fel un sy'n gymwys ar gyfer cyllid. Gellir dynodi cyrsiau mewn un o ddwy ffordd: "dynodiad awtomatig" neu "ddynodiad penodol".

- **Dynodiad penodol:** yn achos darparwyr nad ydynt yn sefydliad a reoleiddir, rhaid iddynt wneud cais i ddynodi pob un o'u cyrsiau israddedig llawn-amser ar sail unigol o dan y broses "dynodiad penodol" a weithredir gan CCAUC os ydynt am i'w myfyrwyr gael cymorth i

fyfyrwyr. Er mai CCAUC sy'n gweithredu'r broses, maent yn gwneud hynny ar sail polisi dynodi penodol Llywodraeth Cymru⁹ a Gweinidog Cymru sy'n gwneud y penderfyniad dynodi, gan ystyried argymhelliad CCAUC ym mhob achos. Os bydd Gweinidog Cymru yn penderfynu dynodi cwrs, yna mae'r cwrs hwnnw'n denu cymorth ariannol i fyfyrwyr; fodd bynnag, dim ond lefel is o gymorth y bydd yn ei denu (benthyciad ffioedd dysgu o £6,165 y flwyddyn ar gyfer cyrsiau yng Nghymru). Mae'r lefel hon o arian cyhoeddus yn adlewyrchu'r ffaith bod y gofynion y mae'n rhaid i ddarparwyr eu hateb i gyflawni dynodiad penodol ar gyfer cwrs yn llai cynhwysfawr na phe baent yn rhan o'r system reoleiddio lawn.

- **Dynodiad awtomatig:** mae cyrsiau israddedig llawn-amser darparwyr sy'n sefydliadau a reoleiddir o dan Ddeddf 2015 ac sydd felly yn y system reoleiddio lawn yn cael eu "dynodi'n awtomatig" ar gyfer cymorth i fyfyrwyr o dan y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr. Mae hyn yn golygu nad oes angen gwneud cais i ddynodi pob cwrs yn benodol, maent yn cael eu dynodi yn rhinwedd y ffaith bod y darparwr yn cael ei reoleiddio. Gan bod cael ei reoleiddio'n golygu bod sefydliad yn ddarostyngedig i fwy o ddyletswyddau, pwerau a gofynion, mae lefel yr arian cyhoeddus sydd ar gael yn cynyddu a gall myfyrwyr gael mynediad at fenthyciadau hyd at £9,000 y flwyddyn ar gyfer cyrsiau yng Nghymru (o'i gymharu â £6,165 uchod). Mae dynodiad awtomatig hefyd yn bodoli yn achos darparwyr nad ydynt yn cael eu rheoleiddio ond sy'n cael grantiau cylchol gan Weinidogion Cymru, ond yn yr achos hwn dim ond cyrsiau israddedig ac ôl-raddedig rhan-amser darparwyr o'r fath sydd wedi'u dynodi'n awtomatig. Nid oes rhaid i'r grant cylchol fod gan CCAUC.

⁹ CCAUC, [Canllawiau Dynodi Penodol CCAUC](#), tud 2

3. Bylchau yn y system rheoleiddio addysg uwch

Clywsom fod anghysonderau a bylchau yn bodoli yn y system rheoleiddio addysg uwch. Clywsom hefyd fod y ddeddfwriaeth gyfredol yn golygu ei bod yn bosibl i ddarparwyr ddarparu addysg uwch yng Nghymru heb unrhyw oruchwyliaeth swyddogol gan CCAUC. Mae'n ffodus iawn yn ein barn ni nad yw'r Ddeddf wedi cael ei phrofi gan yr un lefel o newid ag a welwyd mewn addysg uwch yn Lloegr.

31. Mae'r Memorandwm Esboniadol a oedd yn cyd-fynd â Deddf 2015 yn egluro mai un o amcanion y ddeddfwriaeth yw sicrhau trefn reoleiddio gadarn a chymesur ar gyfer sefydliadau yng Nghymru y mae eu cyrsiau'n cael eu cefnogi gan grantiau a benthyciadau Llywodraeth Cymru.¹⁰

32. Yn ystod ein hymchwiliad, daeth yn amlwg i ni bod cwmpas y Ddeddf yn llawer culach mewn gwirionedd, gan ganolbwyntio yn lle hynny ar greu fframwaith rheoleiddio dim ond ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n ceisio dynodiad awtomatig ar gyfer eu cyrsiau at ddibenion cymorth i fyfyrwyr.¹¹

33. Fodd bynnag, mae archwilio'r ddeddfwriaeth berthnasol¹² yn dangos nad yw Deddf 2015 yn cyflawni hyn ychwaith. Dywedodd Prifysgolion Cymru wrthym:

“The [Act] only partly implements the Welsh Government’s original proposals as set out in the Technical consultation in June 2013 to provide a holistic HE system.”¹³

¹⁰ Memorandwm Esboniadol diwygiedig Llywodraeth Cymru, adran 3, 4, (a)

¹¹ Memorandwm Esboniadol diwygiedig Llywodraeth Cymru, adran 3, 5, (a)

¹² Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019; Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018; Rheoliadau Addysg (Benthyciadau Gradd Doethuriaeth Ôl-raddedig) (Cymru) 2018.

¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg CYPE, HEA 05, para 2.7

Dynodi cyrsiau at ddibenion cymorth i fyfyrwyr

34. Dynodiad awtomatig a phenodol ar gyfer cyrsiau at ddibenion cymorth i fyfyrwyr yw conglfeini'r system reoleiddio gyfredol. Ni all myfyrwyr gael cymorth i fyfyrwyr i astudio ar gwrs oni bai ei fod wedi'i ddynodi mewn un o'r ddwy ffordd yma. Er eu bod yn hanfodol i weithrediad darpariaethau Deddf 2015, mae trefniadau dynodi yn dibynnu ar reoliadau cymorth i fyfyrwyr a wneir o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.¹⁴

35. Eglurodd rhanddeiliaid wrthym nad oedd cyrsiau rhan-amser nac ôl-raddedig yn cael eu rheoleiddio dan Ddeddf 2015. Pan ofynnwyd iddi am hyn, dywedodd y Gweinidog wrthym:

“I have to say that, at present, we've not identified an urgent reason to designate these courses as qualifying courses for the purposes of a fee limit.”¹⁵

36. Esboniodd Bethan Owen o CCAUC wrthym hefyd fod y geiriad yn y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr yn gallu arwain at fylchau yng ngoruchwyliaeth CCAUC ar gyfer cyrsiau rhan-amser ac ôl-raddedig:

“[Whilst] Part-time and postgraduate provision don't fall within the regulatory framework of fee and access plans, [they are] automatically designated for student support at Welsh publicly funded institutions. So, there is a gap.”¹⁶

37. Gall hyn ddigwydd pan fo sefydliadau sy'n darparu cyrsiau rhan-amser ac ôl-raddedig yn unig hefyd yn cael yr arian cyhoeddus a grybwyllwyd uchod o ffynonellau heblaw CCAUC. Yn yr achosion hyn, fel yr esboniodd Bethan Owens wrthym, nid oes gan CCAUC unrhyw oruchwyliaeth na phwerau swyddogol dros y cyrsiau hynny gan nad yw'r arian cyhoeddus yn dod oddi wrth CCAUC.

38. Mae'r ffigur ar y dudalen ganlynol yn dangos ar ffurf syml sut y mae'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr yn caniatáu i ddarparwr gael mynediad at fenthyciadau a grantiau a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, a ble a sut y gall bylchau ymddangos.

¹⁴Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998

¹⁵Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 24], 26 Medi 2019

¹⁶Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 51], 18 Gorffennaf 2019


39. Pan ofynnwyd iddo beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol ar gyfer ansawdd y ddarpariaeth mewn darparwyr sy'n cael arian cyhoeddus ond nad ydynt yn cael ei goruchwyllo gan CCAUC, dywedodd David Blaney, Prif Weithredwr CCAUC wrthym:

“It’s not to say that there is a quality problem with those providers. The reality is that we wouldn’t know because they’re not required to go through the quality machinery that our regulations otherwise require. So, there could be a problem.”¹⁷

¹⁷Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 57], 18 Gorffennaf 2019

Fframwaith rheoleiddiol addysg uwch Cymru

Mae'r ffigur hwn yn dangos sut, o dan y rheoliadau perthnasol o ran cymorth i fyfyrwyr, y mae'n bosibl i ddarparwr gael cyllid a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu addysg uwch yng Nghymru heb ddod o dan oruchwyliaeth CCAUC. Mae'r ffigur yn cymryd bod y darparwr yn bodloni'r holl ofynion eraill o ran dynodiad awtomatig neu ddynodiad penodol.



Ffynhonnell: Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019; Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018; Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018.



Fel y rheoliadau ynghylch cymorth i fyfyrwyr ôl-radd a myfyrwyr gradd meistr

Dynodiad awtomatig os yw'r darparwr yn:

Sefydliad a ariennir yng Nghymru
("wedi'i gynnal neu ei gefnogi drwy grantiau rheolaidd allan o gronfeydd a ddarperir gan Weinidogion Cymru")

Os ydyw:

Os nad yw grantiau rheolaidd yn dod drwy CCAUC, mae'n bosibl y bydd yn cael dynodiad awtomatig **ond nid oes gan CCAUC rôl o ran goruchwyliaeth swydddogol**

Os nad ydyw:

Rhaid iddo gael dynodiad penodol gan CCAUC ar gyfer pob cwrs ac mae'n dod o dan oruchwyliaeth CCAUC.

Fel y rheoliadau ynghylch cymorth i fyfyrwyr doethuriaeth sy'n derbyn benthyciad

Dynodiad awtomatig os yw'r darparwr yn:

Sefydliad a ariennir yng Nghymru
("wedi'i gynnal neu ei gefnogi drwy grantiau rheolaidd allan o gronfeydd a ddarperir gan Weinidogion Cymru")

Os ydyw:

Os nad yw grantiau rheolaidd yn dod drwy CCAUC, mae'n bosibl y cânt ddynodiad awtomatig o hyd, **ond ni fydd oruchwyliaeth swydddogol gan CCAUC.**

Os nad ydyw:

Rhaid iddo gael dynodiad penodol gan CCAUC ar gyfer pob cwrs ac mae'n dod o dan oruchwyliaeth CCAUC.

Anghysonderau yn y ddeddfwriaeth

40. Fe'i dygwyd i'n sylw hefyd fod y rhyngweithio rhwng y gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i gyllido a rheoleiddio addysg uwch yn galluogi nifer o anghysonderau eraill i ddod i'r amlwg, gan gymhlethu'r system reoliadol ymhellach.

41. Cawsom dystiolaeth hefyd a oedd yn awgrymu bod anghysondeb sylweddol wedi codi mewn perthynas â goruchwyllo ac arolygu darparwyr o ganlyniad i Ddeddf 2015. Dywedodd CCAUC ac Estyn wrthym fod CCAUC wedi dod yn gyfrifol am ansawdd yr holl ddarpariaeth mewn dau goleg Addysg Bellach sydd, am resymau hanesyddol, wedi dod yn sefydliadau a reoleiddir o dan Ddeddf 2015.¹⁸

42. Fel rheol Estyn sy'n goruchwyllo darpariaeth addysg bellach (AB) a darpariaeth addysg uwch (AU) CCAUC. Fodd bynnag, mae Deddf 2015 yn ystyried bod gan CCAUC ac Estyn ill dau ddyletswydd gyfreithiol tuag at ansawdd y ddarpariaeth AB yn y ddau goleg AB. Dadleuodd y Gweinidog mai darpariaeth fwriadol yn y Ddeddf oedd hon ac nid gwall nac anghysondeb:

“[...] my understanding is that it was not an unintended consequence, it was an expectation built into the Act that HEFCW and Estyn would work together on these matters.”¹⁹

43. Roedd dystiolaeth gan ColegauCymru, a oedd yn cynrychioli'r sector addysg bellach, yn awgrymu nad oedd y sector yn teimlo bod y trefniant hwn yn llethol nac yn feichus. Roeddent yn priodoli hyn i'r ffaith bod CCAUC ac Estyn wedi dod i gytundeb mai Estyn fyddai'n archwilio'r ddau goleg ar ran CCAUC.²⁰

44. Serch hynny, esboniodd David Blaney y gallai Deddf 2015, dan amgylchiadau gwahanol, fod wedi arwain at ddyblygu sylweddol lle mae arolygu yn y cwestiwn:

“So, if we [Estyn and HEFCW] were not such good friends, you could imagine that we would both be going in there [both separately inspecting FE]. As it is, we have a perfectly good operational relationship with Estyn. We don't send our people in to look at stuff that they're already doing. So, operationally, we're making it work, but

¹⁸ Grŵp Llandrillo Menai a Grŵp NPTC

¹⁹ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 116], 26 Medi 2019

²⁰ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 321], 18 Gorffennaf 2019

actually I suspect—. My view is that that particular issue in the 2015 legislation was a mistake.”²¹

45. Dywedodd Jassa Scott o Estyn wrth y Pwyllgor fod y trefniant yn gweithio “because we’ve made it work”.²²

Ein barn ynglŷn â system reoleiddio Deddf 2015

46. Nododd y Pwyllgor a’n rhagflaenodd bryderon ynghylch pa mor gynhwysfawr oedd y system reoleiddio yn ei adroddiad Cyfnod Un gwreiddiol ar y Bil AU ar y pryd yn 2014.²³ Mae ein gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf 2015 yn awgrymu bod y pryderon hynny wedi’u cadarnhau.

47. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd gennym, credwn fod Deddf 2015 wedi’i gwreiddio’n ormodol yn nhirwedd addysg uwch ei chyfnod ac yn canolbwyntio’n ormodol ar un math o ddarparwr: sefydliadau a reoleiddir sy’n cynnig cyrsiau israddedig llawn-amser.

48. Yng ngoleuni’r bylchau yn y drefn reoleiddio y mae hyn yn eu creu yng Nghymru, credwn fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn ffodus nad yw’r system reoleiddio wedi’i phrofi gan newid o’r un maint ag a brofwyd yn y dirwedd addysg uwch yn Lloegr. Yn ein barn ni, byddai cynnydd sylweddol mewn darparwyr preifat amgen, a darparwyr sy’n cynnig amrywiaeth o gyrsiau israddedig nad ydynt yn llawn-amser, yn her sylweddol i’n trefniadau cyfredol.

49. Nodwn, ar gyfer cyrsiau addysg uwch ôl-raddedig, rhan-amser ac is-radd (lefel HND a HNC²⁴), nad yw Deddf 2015 yn cael unrhyw effaith uniongyrchol os nad yw darparwr hefyd yn sefydliad a reoleiddir. Mae hyn er gwaethaf y potensial i ddarparwyr yng Nghymru gynnig y mathau hyn o ddarpariaeth addysg uwch yn unig. Rydym hefyd yn nodi, er mai CCAUC sy’n gweinyddu’r broses dynodiad penodol ar gyfer cyrsiau, yn ymarferol gwneud argymhellion i Weinidog Cymru y mae, sy’n gyfrifol yn y pen draw am wneud y penderfyniad.²⁵

50. Nid oedd yn eglur i ni pam fod y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr wedi cael eu llunio yn y fath fodd fel eu bod yn gallu arwain at sefyllfa lle mae CCAUC heb

²¹ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 75], 18 Gorffennaf 2019

²² Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 89], 18 Gorffennaf 2019

²³ [Adroddiad Cyfnod Un y Bil AU](#)

²⁴ Yn cyfateb yn fras i Flwyddyn 1 a Blwyddyn 2 gradd israddedig

²⁵ CCAUC, [Canllawiau Dynodi Penodol](#), tud 18

oruchwyliaeth swyddogol dros rywfaint o'r ddarpariaeth addysg uwch. Rydym yn awyddus i ddysgu pwy sydd â'r oruchwyliaeth angenrheidiol ar ansawdd y darparwyr hyn os nad CCAUC sydd. Er ein bod yn deall bod darpariaeth o'r natur hon yn gyfyngedig o ran graddfa ar hyn o bryd, rydym yn ymwybodol y gallai hyn newid yn y dyfodol.

51. Rydym yn cytuno â chasgliad cyffredinol Prifysgolion Cymru:

“The opportunity to develop a fully integrated system [via the 2015 Act] was missed.”²⁶

Argymhelliad 1. Bod Llywodraeth Cymru yn egluro'r rhesymeg sy'n sail i'r rheoliadau cyllido myfyrwyr sy'n caniatáu i sefydliadau nad ydynt yn cael eu hariannu'n gyhoeddus gan CCAUC gael dynodiad awtomatig ar gyfer eu darpariaeth ran-amser ac ôl-raddedig, a beth yw manteision ac anfanteision y dull hwn.

Argymhelliad 2. Bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut y mae, (neu sut y byddai), yn cadw goruchwyliaeth dros ddarpariaeth ran-amser ac ôl-raddedig a ddynodwyd yn awtomatig lle nad yw'r grant cylchol yn tarddu o CCAUC.

Argymhelliad 3. Bod Llywodraeth Cymru yn darparu cofrestr o'r holl gyrsiau sy'n berthnasol i argymhelliad 2, gyda phob cofnod cwrs yn nodi'r trefniadau sicrhau ansawdd sy'n berthnasol a'r corff sy'n atebol am oruchwyliaeth. Dylai'r gofrestr hon hefyd gynnwys manylion yr holl gyrsiau a ddynodwyd yn benodol, dylid ei rhoi ar-lein o fewn 90 diwrnod i gyhoeddi'r adroddiad hwn, a dylai gael ei diweddarau'n rheolaidd.

Argymhelliad 4. Bod Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i hymateb i'r adroddiad hwn, yn darparu manylion unrhyw achos lle mae Gweinidogion Cymru wedi dynodi cwrs addysg uwch yn unigol, yn groes i argymhelliad CCAUC. Dylai'r cyfiawnhad dros unrhyw benderfyniadau o'r fath gael ei nodi yn yr ymateb hefyd.

Gwersi ar gyfer y bil addysg drydyddol

Mae'r **rhaidd i fframwaith rheoleiddiol y sector PCET newydd fod yn gydlynol**, yn gyson ac, yn arbennig, wedi'i ddiogelu at y dyfodol.

52. Yn ein barn ni, rhaid i'r bil addysg drydyddol beidio â bod yn gyfle arall a gollwyd i ddarparu system reoleiddio gydlynol ac integredig. Heb hyn, mae'n

²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, HEA 05, para 2.8

anodd gweld sut y gellir gwireddu'r uchelgeisiau sydd ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru.²⁷

53. Gyda hyn mewn golwg, mae tystiolaeth Estyn yn peri gofid i ni, o ran eu pryder ei bod yn ymddangos bod mathau llai o ddarpariaeth ôl-16 a ariennir yn gyhoeddus ar goll o gynigion Llywodraeth Cymru:

“In terms of any future post-compulsory education and training Bill, I think we’re concerned that [...] there’s a very large number of smaller sectors that don’t get mentioned a lot in that kind of debate, which we currently inspect, and the list is really quite long.”²⁸

54. Rydym yn cytuno gyda Prifysgolion Cymru y bydd angen i'r bil addysg drydyddol arfaethedig fod yn effeithiol mewn sector mwy o faint, mwy amrywiol a fydd â deinameg wahanol i'r sector AU presennol. Cytunwn hefyd efallai na fydd y sector bob amser, nac ym mhobman, yn cael ei nodweddu gan y perthnasoedd cadarnhaol sydd gan CCAUC a darparwyr addysg uwch ar hyn o bryd. Eglurodd yr Athro Julie Lydon, Cadeirydd Prifysgolion Cymru:

“[...] at the moment, you can’t really see a significant impact [from alternative providers], because actually it’s such a modest part of the sector. But we’ll need to anticipate that, actually, in the future, there will be other people providing this.”²⁹

55. O'r herwydd, rydym yn croesawu datganiad y Gweinidog:

“We [the Welsh Government] will need to ensure that the new [tertiary education and research] commission has powers to regulate and to futureproof.”³⁰

56. Rydym hefyd yn cytuno gyda CCAUC bod lefel y manylder yn Neddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 - y ddeddfwriaeth a sefydlodd CCAUC - o gryn werth ac yn haeddu ystyriaeth ofalus. Eglurodd David Blaney, Prif Weithredwr CCAUC:

“It’s very instructive to look at that, the 1992 Act that set up the funding council. If you look at the clauses that relate to the actual funding

²⁷ Llywodraeth Cymru, ymgynghoriad technegol [Budd y cyhoedd a Chymru ffyniannus](#)

²⁸ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 59], 18 Gorffennaf 2019

²⁹ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 231], 18 Gorffennaf 2019

³⁰ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 99], 26 Medi 2019

council—only about a dozen clauses or something like that [...] It basically says, ‘You’ll have a council, you’ll do some funding and you’ll sort out quality.’ The reason that the 1992 legislation is still workable today is precisely because it wasn’t over-specified. The funding council, over the years, has been able to construct the operational arrangements to do that.”³¹

Argymhelliad 5. Bod Llywodraeth Cymru yn myfyrio ynghylch y gwersi o natur gyfarwyddol a darniog y fframwaith rheoleiddio a grëwyd gan Ddeddf 2015 ac yn sicrhau bod y bil addysg drydyddol arfaethedig yn creu system ôl-16 gydlynol ac integredig. Dylai’r bil hwn gael ei ddrafftio i greu fframwaith deddfwriaethol sy’n ddigon hyblyg i ymdopi â newidiadau annisgwyl a allai ddigwydd ymhen blynnyddoedd neu ddegawdau yn y dyfodol.

³¹ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 121], 18 Gorffennaf 2019

4. Pwerau CCAUC o dan Ddeddf 2015

Credwn fod llywodraethu effeithiol yn hanfodol i ddiogelu cyllid cyhoeddus a gwarchod buddiannau myfyrwyr. Er i CCAUC ennill pwerau newydd o dan Ddeddf 2015, clywsom fod y pwerau hyn yn ymarferol yn anodd iawn i'w defnyddio ac nad ydynt yn addas ar gyfer atal neu reoli'r risg ddifrifol o lywodraethu gwael yn y sector.

57. Mae Deddf 2015 yn darparu ystod o sancsiynau a phwerau newydd i CCAUC dros sefydliadau a reoleiddir.³² Mae hyn yn sicrhau y gall CCAUC weithredu yn erbyn sefydliad a reoleiddir hyd yn oed os nad yw'r sefydliad hwnnw wedi cael grant gan CCAUC.

58. Fodd bynnag, yn ystod ein hymchwiliad, clywsom:

- fod materion ymarferol sylweddol yn bodoli mewn perthynas â defnyddio'r pwerau a'r sancsiynau; ac
- er gwaethaf pryderon proffil uchel a oedd yn ymwneud â Phrifysgol Abertawe³³ a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant,³⁴ nad yw CCAUC erioed wedi defnyddio'r pwerau a'r sancsiynau hyn.³⁵

59. Yn gyffredinol, roedd y dystiolaeth a gawsom ar bwerau CCAUC yn adlewyrchu pryderon ynghylch defnyddioldeb cyffredinol y pwerau a'r sancsiynau; eu cymesuredd; a'u hanallu i fynd i'r afael yn effeithiol ac yn uniongyrchol â materion llywodraethu gwirioneddol a thybiedig.

Defnyddioldeb a chymesuredd pwerau a sancsiynau

60. Dywedodd CCAUC wrthym:

“[...] mae'r sancsiynau sydd ar gael i CCAUC drwy gyfrwng Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 yn gweithredu'n araf ac yn ddirfodol fygythiol i raddau helaeth i ddarparwyr. Mae hyn yn gwneud y sancsiynau'n

³² [Rhestr o bwerau a sancsiynau rheoleiddio CCAUC](#)

³³ Stori'r BBC parthed: [diswyddo'r Athro Richard Davies](#)

³⁴ Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, [Adroddiad Blynyddol 2018](#), tud 26

³⁵ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 31], 18 Gorffennaf 2019

anodd eu defnyddio ac nid yw'n caniatáu ar gyfer ymyriadau ffurfiol, cyflym i roi sylw i broblemau'n gymesur drwy ein pwerau cyfreithiol.”³⁶

61. Aeth David Blaney, Prif Weithredwr CCAUC ymlaen i egluro:

“We’ve never had to use our intervention powers, and our sense of how we regulate is that the intervention powers are really used in circumstances where a provider knows exactly what they’ve got to do and are steadfastly refusing to do it and, happily, we don’t have providers who behave like that.”³⁷

62. Eglurodd David Blaney ymhellach, pe bai darparwr yn peidio'n daer â gwneud yr hyn yr oedd yn gwybod bod rhaid iddo'i wneud:

“The tools at the moment are a little bit nuclear. So, we can direct, we can get people to spend money on activity, but all of that can be legally challenged. Then, in the extreme, we can refuse to give them a fee plan, which means that we close them, effectively, because their access to income dries up overnight. Are we going to go there? Well, actually, they have to believe that I might, but it would be a pretty nuclear option to do it.”³⁸

63. Mewn cyferbyniad, credai Prifysgolion Cymru fod y pwerau a'r sancsiynau wedi'u drafftio yn Neddf 2015 yn y fath fodd fel bod risg y gellid eu defnyddio'n anghymesur:

“[...] there remain potential issues in some areas e.g. potential for the powers to give directions enforceable by injunction to be used for minor matters.”³⁹

64. Esboniodd yr Athro Julie Lydon o Brifysgol De Cymru fod Deddf 2015 wedi'i fframio yn y fath fodd fel bod risg y gallai mater eithaf bach dros un o'r 37 targed yng nghynllun ffioedd a mynediad ei sefydliad arwain at roi cosb ddifrifol iawn a fyddai'n golygu yn y pen draw na fyddent yn gallu gweithredu.⁴⁰

³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, HEA 09, para 1.5

³⁷ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 31], 18 Gorffennaf 2019

³⁸ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 114], 18 Gorffennaf 2019

³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, HEA 05, para 2.6

⁴⁰ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 178], 18 Gorffennaf 2019

65. Nid oedd y Gweinidog yn cytuno bod pwerau CCAUC yn anhyblyg:

“I don’t think [HEFCW’s] powers are frightening. It’s very clear what powers are available to HEFCW, and they’re certainly more than just the ability to, maybe, lean on an institution. Clearly, there is a system by which there is the ability to, you know, ramp up and escalate levels of intervention in the sector by HEFCW, but I certainly wouldn’t describe them as inflexible or not having weight.”⁴¹

Pwerau i fynd i’r afael â materion llywodraethu

66. O ran llywodraethu, mae’r Pwyllgor yn cydnabod rôl hanfodol llywodraethu effeithiol yn y sector addysg uwch, a’i rôl o ran ddiogelu cyllid cyhoeddus a buddiannau myfyrwyr.

67. Roeddem yn destun gofid i ni felly bod tystiolaeth a gyflwynwyd gan UCU (Undeb y Prifysgolion a’r Colegau) yn tynnu sylw at bryderon bod Deddf 2015 yn methu â darparu’r offer angenrheidiol i CCAUC allu cyflawni ymyriadau llywodraethu effeithiol, ac yn methu â gosod yr amodau ar gyfer llywodraethu da.

68. Dywedodd Margaret Phelan o UCU wrthym mai dim ond yr arwyddion gweladwy o faterion llywodraethu dyfnach a fydd wedi codi beth amser ymlaen llaw yw’r amgylchiadau lle gall CCAUC weithredu’n ffurfiol o dan Ddeddf 2015.⁴²

69. Aeth UCU ymlaen i egluro wrthym, yn ogystal â pheidio â galluogi ymyriadau ffurfiol cynnar i faterion llywodraethu, bod Deddf 2015 yn methu â chanolbwyntio ar atal materion llywodraethu am nad yw’n gwneud darpariaeth uniongyrchol ar gyfer sicrhau gweithrediad effeithiol y cyrff llywodraethu eu hunain:

“I think from our perspective, the real issue is governance—the structures that we have around the regulatory governance of the sector is where the problem is located.”⁴³

70. Esboniodd y Gweinidog, er bod CCAUC yn ymarferol yn ceisio sicrwydd llywodraethu trwy fecanweithiau y tu allan i Ddeddf 2015, ei bod yn deg dweud bod y ddeddfwriaeth:

⁴¹ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 42], 26 Medi 2019

⁴² Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 401], 18 Gorffennaf 2019

⁴³ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 401], 18 Gorffennaf 2019

“[...] does not directly address issues around governance in the sector. [...] But governance—we’ve talked briefly about some recent history within the sector that I think has certainly brought the issue of governance to the fore once again.”⁴⁴

71. Aeth y Gweinidog ymlaen i egluro bod adolygiad annibynnol o lywodraethu ar y gweill ar hyn o bryd, dan gadeiryddiaeth Gillian Camm o’r Sefydliad Arweinyddiaeth ar gyfer Addysg Uwch. Eglurodd y Gweinidog ei bod yn:

“[...] glad that there’s been recognition from within the sector themselves that they need to make sure, and they need to give confidence, that governance arrangements are what they should be.”⁴⁵

Ein barn ynglŷn â’r pwerau a’r sancsiynau yn Neddf 2015

72. Yn ein barn ni, nid yw o ryw lawer o ddefnydd bod â phwerau sy’n anodd i’w defnyddio’n ymarferol ac na allant fynd i’r afael yn uniongyrchol â materion allweddol fel ymyrryd yn gynnar pan ddatgelir materion llywodraethu neu pan fo amheuaeth bod materion o’r fath yn bodoli.

73. Mae sancsiynau sydd wedi’u fframio, er enghraifft, o amgylch digwyddiad mor gyffredinol a gwael ei ddiffiniad â “methiant i gydymffurfio â gofynion cyffredinol cynllun ffioedd a mynediad”⁴⁶ yn gallu achosi sefyllfa lle mae CCAUC yn cael anhawster defnyddio ei bwerau, tra bod y sector ar yr un pryd yn gweld risg wirioneddol o weithredu anghymesur gan CCAUC.

74. Roeddem wedi’n hargyhoeddi, fodd bynnag, mai’r union angen i ddefnyddio pwerau yn Neddf 2015 mewn modd rhesymol a chymesur sy’n eu gwneud yn anodd i’w defnyddio yn ymarferol, a bod y risg y bydd CCAUC yn eu defnyddio i ymdrin â “mân faterion”, fel y dadleuwyd gan Prifysgolion Cymru, mewn gwirionedd, yn risg fach iawn. Serch hynny, ar sail yr angen i ddrafftio deddfwriaeth yn glir, ac iddi gael effaith ymarferol, rydym yn cytuno â’r pwynt egwyddor ehangach a fynegwyd gan Ben Arnold o Prifysgolion Cymru, sef:

⁴⁴ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 103], 26 Medi 2019

⁴⁵ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 106], 26 Medi 2019

⁴⁶ Gweler y [Rhestr o bwerau a sancsiynau CCAUC](#)

“The big message for us [on using powers for minor matters] is perhaps not so much that this has been an issue in practice, but that there is an opportunity to improve.”⁴⁷

Argymhelliad 6. Bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i CCAUC rannu unrhyw ganfyddiadau allweddol neu gamau gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad o lywodraethu yn y sector sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan Gillian Camm ar ran darparwyr.

Gwersi ar gyfer y bil addysg drydyddol

Rhaid i'r bil addysg drydyddol sicrhau y gall y corff addysg ôl-16 newydd arfaethedig, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (a adwaenir fel “CADY” neu “y Comisiwn”) **bennu'r amodau ar gyfer sicrhau llywodraethu da mewn darparwyr**, ac y gall ymyrryd yn ffurfiol pan fo amheuaeth bod materion llywodraethu'n bodoli.

75. Mae llywodraethu effeithiol yn hanfodol i ddiogelu cyllid cyhoeddus a gwarchod buddiannau myfyrwyr.

76. Rydym yn ymwybodol iawn o faterion uchel eu proffil yn ddiweddar ym Mhrifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Nodwn fod y materion hyn wedi codi mewn darparwyr y mae Prifysgolion Cymru yn dadlau eu bod yn “ddarparwyr traddodiadol” sydd â “hanes cryf”.⁴⁸

77. Fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2015, elusennau yw'r ddau sefydliad. Mae hyn yn tanlinellu i ni na ddylid cymryd yn ganiataol bod statws elusennol ynddo'i hun yn cynnig amddiffyniad yn erbyn llywodraethu gwael, ac nad oes lle ar gyfer hunanfodddhad na dull anymarferol o sicrhau llywodraethu sefydliadol da.

78. Gan hynny, rydym yn croesawu datganiad y Gweinidog bod Llywodraeth Cymru yn:

“Exploring how the [Tertiary Education] Bill could introduce a regulatory condition in respect of good governance, and a commission would be able to set expectations with regard to good governance.”⁴⁹

⁴⁷ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 163], 18 Gorffennaf 2019

⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, HEA 05, para 7.4

⁴⁹ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 108], 26 Medi 2019

Dylai'r Comisiwn fod â'r gallu i bennu'r peirianwaith rheoleiddio a'i ddiwygio pan fo angen wrth i'r sector esblygu, yn amodol ar ymgynghori addas, atebolrwydd a mesurau diogelu (sef yn bennaf sut y rheoleiddid y sector addysg uwch rhwng 1992 a 2015).

79. Cawsom ein hargyhoeddi gan ddadl CCAUC bod Deddf 2015 yn “or-benodol” ac yn rhy gyfarwyddol, gan ei gadael hi a'r peirianwaith rheoleiddio a grëwyd ganddi dan fgythiad os ceir newidiadau yn y sector. Dywedodd David Blaney wrthym:

“Y wers yn hyn (Deddf 2015) yw peidio â gorfanylu yn y ddeddfwriaeth. Nid yw hynny'n golygu eiriol dros ddefnyddio deddfwriaeth fframwaith, gyda'r manylion i'w hychwanegu'n ddiweddarach drwy ddeddfwriaeth eilaidd. Mae'n golygu derbyn mai'r rhesymeg o gael corff hyd braich yw eich bod yn ymddiried yn y corff hwnnw i ddatblygu'r peirianwaith gweithredol, ond gan ddisgwyl y bydd yn ymgynghori fel sy'n briodol, ac y bydd yn gweithredu'n rhesymol (neu'n cael ei herio).”⁵⁰

80. Fe'n calonogwyd o glywed bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried y materion a godwyd gan CCAUC ynghylch ei allu i ddefnyddio ei bwerau ac yn ceisio cynnwys ystod o bwerau a sancsiynau mwy hyblyg yn y bil addysg drydyddol:

“Looking ahead to the new Bill, I would want to see and be very keen to ensure that there are sufficiently flexible [...] and soft regulatory powers that the [new] commission could exercise. Those powers, for instance, could include the ability to offer advice and guidance, rather than, maybe, punitive interventions, and powers to undertake enhanced monitoring of institutions to ensure compliance with regulatory conditions...”⁵¹

Argymhelliad 7. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau, yn amodol ar fesurau diogelu, atebolrwydd ac ymgynghori, bod gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (y Comisiwn) y gallu i ddychmygu sefydlu'r pwerau, ymyriadau, cymhellion a sancsiynau sy'n ofynnol yn ei dyb ef ar gyfer rheoleiddio effeithiol ar sector addysg drydyddol amrywiol a deinamig a fydd yn esblygu dros amser

⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, HEA 09, tud 1

⁵¹ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 44], 26 Medi 2019

mewn ffyrdd annisgwyl. Yn gryno, rhaid caniatáu i'r Comisiwn greu'r hyn y mae CCAUC yn ei alw'n "beirianwaith rheoleiddio".

Argymhelliad 8. Bod y bil addysg drydyddol yn caniatáu i'r Comisiwn bennu'r amodau ar gyfer llywodraethu da ac nad yw'n rhwystro ei allu i ymyrryd mor gynnar â phosibl mewn achosion tybiedig o lywodraethu gwael neu aneffeithiol.

5. Cynlluniau ffioedd a mynediad

Cynlluniau ffioedd a mynediad yw'r mecanwaith o dan Ddeddf 2015 i gynnal ffocws ar fynediad teg at addysg uwch. Fel y'u lluniwyd ac y'u rheolir ar hyn o bryd, nid ydym yn credu eu bod yn addas i'w diben.

81. Cynlluniau ffioedd a mynediad yw'r modd ar gyfer cyflawni amcan y Ddeddf i gynnal ffocws cryf ar ehangu mynediad.⁵² Roedd y dystiolaeth a gawsom yn feirniadol iawn o gynlluniau ffioedd a mynediad a'r broses cynllunio ffioedd a mynediad.

82. Er nad oedd unrhyw randdeiliaid a gyfrannodd at ein hymchwiliad yn gwrthwynebu'r cysyniad o ehangu mynediad nac yn credu bod yr amcan i ehangu mynediad yn Neddf 2015 yn amhriodol, beirniadwyd y canlynol:

- natur fiwrocraidd cynlluniau ffioedd a mynediad,⁵³
- eu rôl mewn perthynas â strategaethau canolog prifysgolion,⁵⁴
- eu ffocws ar fewnbynnau a buddsoddi yn hytrach na chanlyniadau,⁵⁵
- y cylchoedd cynllunio blynyddol, a'r amserlenni byr i'w cyflwyno,⁵⁶ a hefyd
- yr angen i ysgrifennu a chyflwyno cynlluniau newydd cyn i gynlluniau blaenorol ddod i rym, heb sôn am gael eu gwerthuso o ran eu heffeithiolrwydd.⁵⁷

83. Dywedodd CCAUC:

⁵² Gweler Pennod 2 am esboniad ar sut y mae cynlluniau ffioedd a mynediad yn gweithio

⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, HEA 08

⁵⁴ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 236], 18 Gorffennaf 2019

⁵⁵ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 67], 26 Medi 2019

⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, HEA 04

⁵⁷ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 24], 18 Gorffennaf 2019

“Er ei bod braidd yn gynnar o hyd i gyflwyno sylwadau pendant ar effeithiolrwydd y cynlluniau mynediad a ffioedd, gan nad yw’r cynlluniau mynediad a ffioedd cyntaf wedi cael eu gwerthuso’n llawn eto, mae gennym bryderon am ba mor effeithiol y gall cynlluniau mynediad a ffioedd fod wrth gyflawni amcanion polisi, o ran y ffordd maent wedi’u datgan yn Neddf 2015.”⁵⁸

84. Esboniodd CCAUC hefyd fod Deddf 2015 wedi ei atal rhag sefydlu dull cydlynol a chenedlaethol o bennu canlyniadau ehangu mynediad gyda sefydliadau’n rhydd i bennu eu targedau a’u hamcanion eu hunain:

“Mae gwarchod ymreolaeth sefydliadau wedi’i ddatgan i’r fath raddau yn Neddf 2015 fel ein bod wedi cael ein cynghori nad oes modd, yn gyfreithiol, i ni ddatgan ei bod yn ofynnol i sefydliadau a reoleiddir ganolbwyntio ar ganlyniadau cenedlaethol i wella cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch yng Nghymru.”⁵⁹

85. Aeth David Blaney i’r afael â’r pwynt hwn ymhellach, gan egluro bod CCAUC, trwy ei berthnasoedd llai ffurfiol â darparwyr, wedi gallu annog darparwyr i fynd i’r afael â blaenoriaethau cenedlaethol:

“The fee and access plans are about individual institutions and, as I say, we were advised that we couldn’t require them to address national priorities. In reality, we’re starting to do that a bit now, but it’s not supported by the regulatory machinery.”⁶⁰

86. Disgrifiodd yr Athro Julie Lydon gymhlethdod cynllun ffioedd a mynediad ei sefydliad, gan egluro:

“The fee and access plans at the moment are incredibly drawn out, long documents. They’re almost indecipherable to anybody, even to some colleagues in the institutions. They’re not things that get pinned up on the wall, because in the case of mine, it’s 67 pages long and there are lots of targets.”⁶¹

⁵⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, HEA 09, para 1.11

⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, HEA 09, para 1.12

⁶⁰ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 8], 18 Gorffennaf 2019

⁶¹ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 170], 18 Gorffennaf 2019

87. Gwnaeth Prifysgol Caerdydd bwynt tebyg ynglŷn â baich biwrocraidd y cynlluniau:

“Byddem yn annog adolygiad o ofynion y Cynllun Ffioedd a Mynediad gan nad yw lefel y gweithgarwch gweinyddol sydd ei hangen i gydymffurfio â'r Ddeddf yn gymesur i'r buddiannau yn ôl pob golwg.”⁶²

88. Awgrymodd nifer o gynrychiolwyr y sector, gan gynnwys yr Athro Julie Lydon, mai strategaethau sefydliadol, a ddatblygwyd gan brifysgolion eu hunain, yw prif ysgogydd dyheadau sefydliadol ynghylch ehangu mynediad. Roeddent yn awgrymu mai rôl atodol sydd gan y cynlluniau ffioedd a mynediad llawer mwy, manylach a mwy cyfarwyddol. Dywedodd yr Athro Elizabeth Treasure o Brifysgol Aberystwyth wrthym fod “rhywfaint o ôl-ffitio”⁶³ gyda'r Athro Julie Lydon yn ymhelaethu:

“We are ahead of the Act, because actually our job is to think about the five and 10-year horizon. That's the job of vice-chancellors, and actually, we're in a business where we're not turning out Mars bars [...] So, actually, our strategies are already set.”⁶⁴

Cydweithio ac ehangu mynediad

89. Dadleuodd CCAUC, Estyn ac UCU nad yw cynlluniau ffioedd a mynediad, a darpariaethau eraill yn Neddf 2015, yn hwyluso nac yn annog cydweithredu rhwng sefydliadau ar yr agenda ehangu mynediad.⁶⁵

90. Dywed Estyn fod ei hymchwil wedi dangos rhywfaint o dystiolaeth y gall penderfyniadau ar gwricwla oedran ysgol gorfodol ddechrau cael effaith andwyol ar ddysgwyr agored i niwed ymhell cyn y gallant wneud eu dewisiadau eu hunain ynglŷn ag addysg ôl-16 neu addysg brifysgol.⁶⁶

91. Aeth UCU ymhellach, gan ddadlau y gall cynlluniau ffioedd a mynediad annog darparwyr i gystadlu am fyfyrwyr yn hytrach na chydweithio ar ehangu mynediad:

⁶² Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, HEA 08, para 3.1

⁶³ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 236], 18 Gorffennaf 2019

⁶⁴ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 240], 18 Gorffennaf 2019

⁶⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, HEA 09, 03 a 10

⁶⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, HEA 03, tud 3

“[Fee and access plans] bear no relation to past government policy on re-configuration and collaboration, and effectively set up institutions in both the FE and HE sector to compete with one another for students. It fails to require institutions to collaborate to provide strategies which address the governments’ broader education policy agenda, for example Widening Access.”⁶⁷

92. Nododd y Gweinidog ei barn ynglŷn â chynlluniau ffioedd a mynediad, gan ddweud:

“I’d like to think we can all agree around the principle of what a fee and access plan is hoping to achieve, but I think there are better ways of doing it, and I think we should take the opportunity of reform to look at how we can do it better.”⁶⁸

93. Aeth y Gweinidog ymlaen i egluro ei bod yn teimlo bod y cynlluniau’n canolbwyntio’n ormodol ar fewnbynnau yn hytrach na chanlyniadau ond bod cynnydd wedi’i wneud ar yr agenda ehangu mynediad:

“Undoubtedly, despite the limitations of [fee and access plans], I do think we’re making progress in terms of access, but I don’t think we can necessarily point to the fee and access plans as being the driver for some of those improvements.”⁶⁹

Ein barn ynglŷn â chynlluniau ffioedd a mynediad Deddf 2015

94. Rydym yn llwyr gefnogi’r ymgyrch am fynediad teg at addysg uwch. Rydym hefyd yn cydnabod bod darparwyr yn ymrwymedig i’r agenda ehangu mynediad ac wedi dangos ymdrech sylweddol yn y maes hwn.

95. Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth a gawsom yn awgrymu’n gymhellol nad yw cynlluniau ffioedd a mynediad yn addas i’w diben. Dywedwyd wrthym eu bod yn fiwrocraidd, yn adnodd-ddwys i CCAUC a’r prifysgolion a’u bod yn canolbwyntio’n ormodol ar fewnbynnau. Yn sgîl yr amser y mae ei angen ar gyfer y broses, rhaid i gynlluniau gael eu hysgrifennu heb wybod pa mor effeithiol fu’r ddau gynllun diwethaf. Eglurodd y Gweinidog hefyd nad oedd yn siŵr mai

⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, HEA 10, tud 3

⁶⁸ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 72], 26 Medi 2019

⁶⁹ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 70], 26 Medi 2019

cynlluniau ffioedd a mynediad yw'r "ysgogydd ar gyfer rhai o'r gwelliannau" y dadleuodd hi eu bod yn cael eu gweld o ran ehangu mynediad.⁷⁰

96. O ystyried bod y Gweinidog wedi nodi bwriad y bydd cynlluniau ffioedd a mynediad yn cael eu dwyn ymlaen i'r bil addysg drydyddol, a hefyd o ystyried y cyfrifir am symiau mawr o arian a gefnogir yn gyhoeddus yn y cynlluniau, credwn fod cyfle i ystyried gwneud gwelliannau rhesymol i gynlluniau ffioedd a mynediad yn y cyfnod cyn cychwyn ar unrhyw drefniadau newydd.

Argymhelliad 9. Bod CCAUC yn darparu copi o unrhyw werthusiadau o gynlluniau ffioedd a mynediad y mae wedi'u cynnal hyd yma.

Argymhelliad 10. Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CCAUC a rhanddeiliaid eraill tuag at y nod o adnabod sut y gellir diwygio'r isddeddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddf 2015 mewn perthynas â chynlluniau ffioedd a mynediad er mwyn:

- lleihau eu baich gweinyddol cyn belled ag y bo modd;
- cryfhau eu heffeithiolrwydd.

Gwersi ar gyfer y bil addysg drydyddol

Rhaid i'r bil alluogi'r Comisiwn i sefydlu amgylchedd lle **mae darparwyr yn cael eu cymell i fabwysiadu canlyniadau a blaenoriaethau sy'n genedlaethol neu a bennwyd gan y Comisiwn yn ddi-dor yn eu strategaethau eu hunain.**

97. Er bod gan CCAUC bwerau a sancsiynau cryfach o dan Ddeddf 2015, clywsom ei fod, yn ymarferol, yn dibynnu ar feithrin a chynnal perthnasoedd cadarnhaol â darparwyr, gweithio mewn partneriaeth, a cheisio dylanwadu arnynt tuag at gyfrannu at flaenoriaethau cenedlaethol.⁷¹ Clywsom hefyd fod hyn yn cael ei gyflawni yn rhannol oherwydd maint bach y sector.⁷²

98. Mae ysgogydd mwyaf blaenllaw CCAUC, sef cynlluniau ffioedd a mynediad, yn ymwneud dim ond ag amcanion cymharol gul ehangu mynediad. Yn ein barn ni, y tu hwnt i ehangu mynediad, mae gallu CCAUC i ddarparu ysgogiad ar gyfer

⁷⁰ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 70], 26 Medi 2019

⁷¹ Gweler **strategaeth gorfforaethol** ddiweddaraf CCAUC sy'n nodi ei fod yn "ariannwr, rheoleiddiwr a dylanwadwr"

⁷² Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 247], 18 Gorffennaf 2019

cyflawni blaenoriaethau cenedlaethol yn rhyfeddol o gyfyngedig os nad oes cyllid cysylltiedig wedi'i neilltuo yn cael ei roi i ddarparwyr i gyd-fynd â blaenoriaethau o'r fath.

99. Rydym yn cytuno â'r Gweinidog y dylid disgwyl yn y dyfodol i ddarparwyr addysg drydyddol sy'n elwa o gymhorthdal a chyllid cyhoeddus gyfrannu at ystod ehangach o flaenoriaethau cenedlaethol ac y dylai'r ffocws, ar y cyfan, fod ar ganlyniadau ac nid allbynnau na mewnbynnau. :

“Personally, I wholeheartedly believe that tertiary education providers should contribute to national goals and outcomes as part of what I'd describe as a civic mission. I'm determined that any legislation that I bring forward and any commission that I establish will be empowered to enable that to happen through its regulatory and funding powers.”⁷³

100. Rydym yn cytuno â'r cysyniad o Gytundebau Canlyniadau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cyflwyno fel rhan o'r bil addysg drydyddol, ond rydym yn cydnabod bod mesur cynnydd tuag at ganlyniadau yn dasg anodd.

101. Er mwyn i Gytundebau Canlyniadau lwyddo, credwn fod rhaid iddynt fod â rôl ganolog yn hytrach nag ymylol yng ngwaith cynllunio a phennu strategaeth darparwyr. Pa bynnag ganlyniadau neu flaenoriaethau sy'n cael eu pennu neu eu negodi gan y Comisiwn, rhaid i'r canlyniadau hynny gael eu mabwysiadu'n ddi-dor rywsut o fewn strategaethau a chynlluniau darparwyr eu hunain. Credwn y bydd hyn yn helpu i sicrhau bod cyrff llywodraethu hefyd wedi'u halinio â hwy, sy'n ystyriaeth hanfodol.

102. Mae cymell set amrywiol o ddarparwyr annibynnol i alinio'n ystyrllon â blaenoriaethau cenedlaethol yn dasg anodd. Rydym yn cydnabod bod dull rhy anhyblyg yn creu risg y bydd Cytundebau Canlyniadau'n dod yn ddim byd ond a thicio blychau, tra bo cyffyrddiad rhy ysgafn yn creu risg y bydd rhy ychydig o uchelgais. Mae hyn yn arbennig o wir mewn sector a allai esblygu i gynnwys mathau gwahanol iawn o ddarparwr.

Argymhelliad 11. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y bil addysg drydyddol newydd yn galluogi'r Comisiwn i osod amgylchedd rheoleiddio ac ariannu lle mae darparwyr yn cael eu cymell i fabwysiadu canlyniadau'n ddi-dor yn eu strategaethau eu hunain, gan felly sicrhau bod cyrff llywodraethu a'u darparwyr wedi'u halinio'n llwyr â hwy.

⁷³ Tystiolaeth Iafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 30], 26 Medi 2019

6. Rheoleiddio, annibyniaeth a buddiannau myfyrwyr

Yn ein barn ni, mae Deddf 2015 a deddfwriaeth berthnasol arall yn cynnig cysyniad lleiafsymiol o fuddiannau myfyrwyr. Nid yw hyn yn gyson â disgwyliadau myfyrwyr a dadleuon cyfredol yn y sector. Dangosodd ein hymchwiliad hefyd nad yw Deddf 2015 yn caniatáu i CCAUC bennu canlyniadau cenedlaethol i ddarparwyr alinio â hwy, a bod ei hysgogiadau polisi ffurfiol, y tu hwnt i ehangu mynediad, yn syndod o gyfyngedig.

103. Roedd y Memorandwm Esboniadol a oedd yn cyd-fynd â'r Bil AU (Cymru) yn nodi mai un o egwyddorion canolog y deddfwriaeth oedd sicrhau y byddai darparwyr yn cael eu rheoleiddio yn gymesur â swm yr arian cyhoeddus sydd yn y fantol.⁷⁴

104. Gwnaethom gymryd tystiolaeth a oedd Deddf 2015 wedi cyflawni lefel gymesur o reoleiddio ac wedi amddiffyn annibyniaeth sefydliadol. Roedd y dystiolaeth yn adlewyrchu set gymhleth o safbwyntiau ac fe arweiniodd at gryn drafod pa un a ddylai sail rheoleiddio fod yn gymesur â:

- faint o arian cyhoeddus sydd yn y fantol (fel ar hyn o bryd); ynteu
- y risg i fuddiannau myfyrwyr (ac, os felly, trafodaeth bellach ynglŷn â'r hyn sy'n gyfystyr â buddiannau myfyrwyr).

Sail rheoleiddio

105. Dadleuodd y Gweinidog fod y Ddeddf yn rheoleiddio'n gymesur â swm y cyllid cyhoeddus sydd yn y fantol:

⁷⁴ Llywodraeth Cymru, **Memorandwm Esboniadol** diwygiedig, para 65

“I believe that the Act has struck that proportionality. When you look at public moneys going into institutions, I think that the Act is proportionate, myself.”⁷⁵

106. Dadleuodd Prifysgolion Cymru o blaid system reoleiddio sy'n fwy cymesur â'r risg i fuddiannau myfyrwyr, nid cyllid cyhoeddus yn unig:

“There is further scope for future arrangements to better address the needs and interests of the full range of students.”⁷⁶

107. Mewn perthynas â'r hyn sy'n gyfystyr â buddiannau myfyrwyr, cyfeiriodd y Gweinidog at y profion y mae'n rhaid i ddarparwyr eu pasio o dan bolisi cyfredol Llywodraeth Cymru er mwyn i'w cyrsiau gael eu dynodi'n unigol:

“[...] the three crucial questions that those providers have to answer are quality—is what they're providing to students of a good quality—the financial viability of the institution—again, to try to protect the interests of the students who may find themselves embarking on a course in an institution that isn't viable—as well as their contribution to [...] public good.”⁷⁷

108. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod hyn yn golygu nad oes unrhyw ofynion ehangach o ran materion fel profiad cyffredinol myfyrwyr, lles myfyrwyr, neu werth am arian – y maent i gyd yn drafodaethau sydd, yn ddilys, wedi dod yn llawer mwy amlwg dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac sy'n cael lle amlwg yng ngwaith UCM⁷⁸ ac mewn trafodaethau o fewn y sector.⁷⁹⁸⁰⁸¹ I bob pwrpas, mae'r un cysyniad yn sail i ddarparwyr a reoleiddir ac y mae eu cyrsiau'n cael eu dynodi'n awtomatig.

⁷⁵ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 92], 26 Medi 2019

⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, HEA 05, para 7.3

⁷⁷ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 16], 26 Medi 2019. Yn ôl [Canllawiau CCAUC](#) mae “budd y cyhoedd” yn ymwneud â'r un dyletswyddau â'r rhai y mae'n rhaid i ddarparwyr a reoleiddir eu cyflawni o ran ehangu mynediad

⁷⁸ www.nus.org.uk/cy/news/research-publications/

⁷⁹ <https://wonkhe.com/tag/value-for-money/>

⁸⁰ <https://wonkhe.com/tag/health-wellbe/>

⁸¹ <https://wonkhe.com/tag/mental-health/>

Annibyniaeth sefydliadol a blaenoriaethau cenedlaethol

109. O ran annibyniaeth, clywsom fod Deddf 2015 yn cynnig bron dim ysgogiadau polisi i CCAUC y tu hwnt i gynlluniau ffioedd a mynediad. At hynny, ym marn CCAUC, cyfyngir ar y cynlluniau hyn gan yr anallu i bennu canlyniadau cenedlaethol. Y prif ysgogiadau polisi a ddefnyddiodd CCAUC yn y gorffennol ac a oedd fwyaf effeithiol yn ei dyb ef, oedd y telerau ac amodau a oedd ynghlwm wrth ei gyllid i ddarparwyr.⁸²

110. Dywedodd Margaret Phelan o UCU wrthym:

“The reality is that before they changed the funding model, HEFCW had really quite powerful financial levers in terms of what they could and couldn’t do. Once a decision was made that the funding followed the student, then all of those powers and funding levers that were available to HEFCW were no longer there.”⁸³

111. Esboniodd David Blaney:

“[the] importance of being able to have some sense of national priorities is important, because, actually, you have a policy context set by the Government, and we want to encourage institutions to respond to those policy priorities, and one of the best ways of doing that is to have some national targets for that.”⁸⁴

112. Gofynasom i’r Gweinidog a oedd hi’n dymuno i Lywodraeth Cymru allu alinio’r sector â chanlyniadau cenedlaethol. Ymatebodd y Gweinidog trwy nodi:

“Well, it’s not something I wish I could do; I think that we’re doing it [...] I think we’re seeing some success in using the remit letter to influence national outcomes.”⁸⁵

113. Ymhelaethodd y Gweinidog ar ddefnyddio llythyr cylch gwaith blynyddol CCAUC fel ysgogydd polisi allweddol, y tu hwnt i ehangu mynediad:

⁸² Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 20], 18 Gorffennaf 2019

⁸³ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 403], 18 Gorffennaf 2019

⁸⁴ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 7], 18 Gorffennaf 2019

⁸⁵ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 33], 26 Medi 2019

“The remit letters are a really important way in which we can lay out those national priorities. I don’t think there’s anything in the legislation per se that prevents those national priorities being articulated and being acted upon.”⁸⁶

114. Dywedodd y Gweinidog hefyd fod angen sicrhau bod cydbwysedd yn cael ei daro rhwng annibyniaeth sefydliadol a gallu ysgogi sector sy’n elwa o gymhorthdal cyhoeddus i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol:

“What we have to strike the balance of as well is at what point those powers seem to be [...] interfering with the principle of autonomy within an institution. So, there’s that balance to be struck, isn’t there, about creating a regulatory regime, which I’m very keen and the Act attempted to do, which was to enshrine institutional autonomy, and that’s really really important, but also a regulatory regime, the ability to influence and to develop and to deliver national outcomes and the power to intervene in that sector.”⁸⁷

Lefelau risg cymharol

115. O ran ffocws rheoleiddiol Deddf 2015, fel y Gweinidog, dadleuodd Bethan Owens o CCAUC fod y lefel reoleiddio gyfredol ar gyfer darparwyr sefydledig yn briodol:

“The current level is appropriate in view of the challenging environment the sector is in at the moment.”⁸⁸

116. Honnodd Prifysgolion Cymru fod y sefydliadau sy’n ddarostyngedig i Ddeddf 2015 yn cynrychioli llai o risg na darparwyr amgen / preifat sydd â hanes byrrach. Fe wnaethant egluro nad yw darparwyr o’r fath yn ddarostyngedig i Ddeddf 2015 ar hyn o bryd, ac na fyddent byth yn gallu bod, ac na fyddai ond angen iddynt fodloni gofynion rheoleiddiol llai dynodiad cwrs penodol.⁸⁹ Dadleuodd yr Athro Julie Lydon o Brifysgol De Cymru:

⁸⁶ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 12], 26 Medi 2019

⁸⁷ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 74], 26 Medi 2019

⁸⁸ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 100], 18 Gorffennaf 2019

⁸⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, HEA 05, para 7.4

“[...] you do not want, actually, the part of the sector that is probably the most highly regulated, the most highly accountable—and, actually, according to the Wales Audit Office, is highly capable of managing its own affairs—to be the only bit any future Act covers when, actually, there are providers who are perhaps more questionable in their ability to operate.”⁹⁰

117. Dywedodd yr Athro Elizabeth Treasure:

“There are providers that may be higher risk—they need higher levels of scrutiny—and then providers with a track record in participating in national quality schemes can have a slightly lighter touch. And it seems to be slightly reversed at the moment.”⁹¹

118. Fe wnaeth Prifysgolion Cymru nodi safbwynt y sector fel a ganlyn:

“The current system provides strictest regulation of the institutions who pose the lowest risk [the 8 traditional universities in Wales]. [There is] Potential for regulatory measures to focus better on areas of greatest need. At the moment the regulation has been increased for institutions that have already strong track records, rather than new and alternative providers.”⁹²

Ein barn ynglŷn â rheoleiddio, annibyniaeth a buddiannau myfyrwyr

119. Gwnaethom ystyried y cwestiwn a ddylai rheoleiddio fod yn seiliedig ar faint o arian cyhoeddus sydd yn y fantol (safbwynt Llywodraeth Cymru), ynteu ar olygwedd myfyrwyr addysg uwch (safbwynt Prifysgolion Cymru ac UCM Cymru).

120. Yn ein barn ni, mae Deddf 2015 a'r meini prawf ar gyfer dynodi cwrs penodol yn bwrw golwg rhy gul ar fuddiannau myfyrwyr, gan eu hystyried yn bennaf o ran ansawdd cyrsiau a chynaliadwyedd ariannol darparwyr - y “model trothwy”. Credwn fod y model hwn yn un sy'n fwyfwy anacronistig yng nghyd-destun disgwyliadau soffistigedig myfyrwyr a ffocws bythol gynyddol ar, er enghraifft, lles myfyrwyr, profiad cyffredinol myfyrwyr, a chyflogadwyedd graddedigion. Yn ein

⁹⁰ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 189], 18 Gorffennaf 2019

⁹¹ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 246], 18 Gorffennaf 2019

⁹² Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, HEA 05, para 7.4

barn ni, dylai unrhyw ddarparwr yng Nghymru fodloni disgwyliadau rhesymol pob myfyriwr.

121. Ni chawsom ein hargyhoeddi'n llwyr gan ddadl y Gweinidog bod y llythyr cylch gwaith yn darparu ysgogydd polisi cwbl effeithiol. Er bod y llythyr yn sicr yn golygu bod rhai nodau polisi wedi cael eu cyflawni, nid ydym yn credu ei fod yn fecanwaith priodol i alinio'r sector yn gadarn â blaenoriaethau cenedlaethol dros gyfnodau hwy. At hynny, o ystyried y dystiolaeth a gawsom am bwerau CCAUC, nid yw'n glir i ni sut y gall CCAUC fynd ati'n effeithiol i fonitro a llywio aliniad yn oni bai bod y Gweinidog yn darparu cyllid wedi'i neilltuo i gyd-fynd â'r polisiau yn y llythyr cylch gwaith.

122. O ran annibyniaeth, mae'n amlwg i ni bod bwlch ar hyn o bryd rhwng nod y Gweinidog, sef aliniad gwell â blaenoriaethau cenedlaethol a barn CCAUC ynglŷn â'i allu i bennu blaenoriaethau cenedlaethol. Rydym yn cytuno â'r egwyddor y dylid disgwyl i gyrff sy'n elwa o arian cyhoeddus a chyllid â chymhorthdal cyhoeddus wneud cyfraniadau priodol at ganlyniadau ehangach, ac y gellir cyflawni hyn heb beryglu annibyniaeth sefydliadol.

123. Er nad yw'n bosibl diwygio Deddf 2015 yn yr amser sydd ar gael, credwn fod cyfle i ddiwygio polisi dynodi cyrsiau penodol Llywodraeth Cymru, nad yw'n statudol. Yn ein barn ni, gellid ei ddiwygio i fynd i'r afael â chysyniad ehangach o fuddiannau myfyrwyr, yn enwedig gan fod hwn yn llwybr at arian cyhoeddus sy'n fwy tebygol o gael ei ddefnyddio gan ddarparwyr anhraddodiadol. Rydym yn cydnabod na ddylai dynodiad cwrs penodol fod â throthwy uwch nag y mae angen i ddarparwyr ei fodloni i ddod yn sefydliadau a reoleiddir o dan Ddeddf 2015, ond rydym hefyd yn credu y gellir gwella'r sefyllfa bresennol.

Argymhelliad 12. Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio ei pholisi dynodi cyrsiau penodol fel ei bod yn ystyried cysyniad ehangach a mwy rhesymol o fuddiannau myfyrwyr na'r model "trothwy" cyfredol o ansawdd cyrsiau, cynaliadwyedd ariannol a "budd y cyhoedd" (a ddiffinnir yn ymarferol yng nghanllawiau CCAUC fel ehangu mynediad).

Gwersi ar gyfer y bil addysg drydyddol

Rhaid i'r bil addysg drydyddol ddarparu ar gyfer **cysyniad mwy cynhwysol a pherthnasol o fuddiannau myfyrwyr a dysgwyr** a rhaid iddo hwyluso camau i'w gwarchod.

124. Dangosodd y dystiolaeth a gawsom gan UCM Cymru fod diddordebau myfyrwyr yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r cysyniad cul a drafodwyd uchod.

Rhoddodd UCM Cymru flas inni o'r lefel uchel o ddisgwyliadau sydd gan fyfyrwyr yn y sector addysg uwch:

“NUS Wales currently operates on the assumption that this [tertiary education] vision would be framed around education which is accessible to all, flexible and portable in its delivery, and delivered and designed in partnership with students and their unions, informed by the Wise Wales Principles of Partnership.”⁹³

125. Credwn fod buddiannau myfyrwyr yn ymestyn i faterion sy'n cynnwys, ond nad ydynt yn gyfyngedig i, les, profiad myfyrwyr, gwerth am arian a chyflogadwyedd ar ôl graddio, ond beth bynnag dylent gael eu nodi gan fyfyrwyr eu hunain trwy fecanweithiau cynrychioli dysgwyr effeithiol.

Argymhelliad 13. Bod Llywodraeth Cymru, yn y Bil addysg drydyddol, yn newid y pwyslais o reoleiddio ar sail faint o arian cyhoeddus sydd yn y fantol, i fwy o ffocws ar reoleiddio yn seiliedig ar ddealltwriaeth resymol, gynhwysol a pherthnasol o fuddiannau myfyrwyr, gan sicrhau bod y Bil yn eu cefnogi ac yn eu diogelu. Dylai hyn ei gwneud yn bosibl i unrhyw ddarparwr ôl-16 a reoleiddir allu bodloni disgwyliadau rhesymol myfyrwyr.

Argymhelliad 14. Bod Llywodraeth Cymru, drwy'r bil addysg drydyddol, yn sicrhau bod mecanweithiau llais dysgwyr addas yn cael eu sefydlu a'u cynnal gan yr holl ddarparwyr a reoleiddir gan y Comisiwn, a bod yn rhaid i'r Comisiwn ei hun roi sylw dyledus i lais myfyrwyr. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr hyn sy'n gyfystyr â buddiannau myfyrwyr yn gallu esblygu dros amser.

⁹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, HEA 04, tud 4

7. Gweithredu a phontio

Mae'n amlwg i ni bod gweithredu Deddf 2015 wedi bod yn fwy cymhleth ac adnodd-ddwys na'r disgwyl, ac eto mae'n gymharol gul ei chwmpas o'i gymharu â'r uchelgais a gynigir ar gyfer y bil newydd. O ystyried cymhlethdod y diwygiadau, credwn ei bod yn hanfodol bod y bil addysg drydyddol yn darparu ar gyfer trefniadau pontio a pharhad busnes addas.

126. Mae'r dystiolaeth a gawsom yn dynodi bod cyfnod gweithredu Deddf 2015, a'r broses ymarferol o bontio i'r drefn reoleiddio newydd, wedi bod yn fwy adnodd-ddwys a chymhleth na'r disgwyl.⁹⁴

127. Esboniodd CCAUC, er ei bod yn anodd amcangyfrif yr union gostau, fod yr amser staff ychwanegol yr oedd ei angen yn golygu bod agweddau eraill ar ei waith wedi cael eu dad-flaenoriaethu:

“Mae ein hamcangyfrif ni o'r costau'n fwy nag a amcangyfrifwyd gan Lywodraeth Cymru yn flaenorol. Ar y pryd, roeddem yn amcangyfrif y byddai'n rhaid i ni gyflogi staff ychwanegol er mwyn gweithredu'r Ddeddf mor effeithiol â phosib. Nid oedd modd i ni gyflawni hyn ac roedd y staff oedd yn gweithio ar ddatblygu a gweithredu'r Ddeddf hefyd yn gyfrifol am barhau â gwaith parhaus CCAUC yn ychwanegol at y gwaith hwn. Mae hyn wedi effeithio ar ein gallu i gyflawni ein cylch gwaith yn effeithiol.”⁹⁵

128. Ategwyd y farn hon ynglŷn â chostau gan Prifysgolion Cymru:

“[...] the actual costs for universities (including Universities Wales) appear to have significantly exceeded the Welsh Government's estimates.”⁹⁶

129. Nododd CCAUC ei fod wedi ysgwyddo costau cyfreithiol o £54,000 a oedd yn gysylltiedig â gweithredu Deddf 2015. Dywedodd CCAUC wrthym hefyd fod drafftio Deddf 2015 wedi achosi materion gyda dehongli a cheisio gweithredu ei darpariaethau. Esboniodd CCAUC fod y cysyniad o “ansawdd a oedd yn debygol o ddod yn annigonol” a gynhwysir yn Neddf 2015 yn arbennig yn gofyn am gryn

⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, HEA 05, para 4.3; HEA 09 para 3.1

⁹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, HEA 09, para 3.1

⁹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, HEA 05, para 4.1

ymdrech i'w ddeall a gweithio drwyddo gydag arbenigwyr. Adleisiodd Prifysgolion Cymru'r thema hon:

“In terms of implementation, a very significant amount of time and resource was spent on developing interim and transitional arrangements as well as final arrangements including the Fee and Access Plan guidance, partnership guidance, the Full and Transitional Statements of Intervention, and the Financial Management Code (staged through revisions to the Financial Memorandum first).”⁹⁷

130. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod, er nad yw'r Ddeddf wedi arwain at unrhyw gostau newydd sylweddol i Lywodraeth Cymru, bod CCAUC wedi ysgwyddo costau blynyddol ychwanegol o ryw £250,000 y flwyddyn.⁹⁸ Esboniodd y Gweinidog wrthym ei bod wedi rhoi sicrwydd y bydd dyraniad CCAUC yn codi yn y dyfodol, er na wnaed yn glir i ni i ba raddau y bydd CCAUC yn gallu defnyddio ei ddyraniad ychwanegol ar gyfer ei gostau rhedeg ei hun yn hytrach na'i ddosbarthu i'r sector.

Ein barn ynglŷn â gweithredu a phontio

131. Cychwynnwyd y Ddeddf yn llawn ar 1 Awst 2017. Ers hynny, mae ymdrechion gweithredu wedi cael eu disodli i raddau helaeth gan “fusnes fel arfer” o dan Ddeddf 2015.⁹⁹

132. Yn ein barn ni, y gwersi allweddol o weithredu Deddf 2015 fu:

- tanamcangyfrif yr adnoddau yr oedd eu hangen, hyd yn oed ar gyfer darn o ddeddfwriaeth â chwmpas cymharol gyfyngedig;
- yr angen i CCAUC ofyn am gyngor cyfreithiol ynghylch materion y gellid bod wedi'u nodi'n glir pe bai ymgynghori mwy manwl wedi bod yn ystod y broses ddrafftio.

⁹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, HEA 05, para 4.5

⁹⁸ Llywodraeth Cymru, [tystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymchwiliad](#)

⁹⁹ CCAUC, [Adroddiad Rheoleiddio Blynyddol 2017/18](#)

Gwersi ar gyfer y bil addysg drydyddol

Mae angen **ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid a chyfnod pontio trefnus** ar gyfer y diwygiadau Addysg Drydyddol sy'n fwy cymhleth ac amrywiol o lawer. Dylai hyn gynnwys trefniadau cysgodol a mesurau parhad busnes ar gyfer y Comisiwn newydd

133. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal dau ymarfer ymgynghori ffurfiol a chyfres o weithdai ymgynghori mewn perthynas â'r diwygiadau addysg drydyddol. Esboniodd swyddogion Llywodraeth Cymru nad yw darpariaethau manylach y bil wedi cael eu trafod gyda rhanddeiliaid, ers yr ymarferion hynny.

134. Eglurodd Huw Morris, Cyfarwyddwr Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cymru:

“[...]the challenge of preparing a Bill is the balancing act between gathering in information—and there’s been a general consultation process and a technical consultation process—and wanting to make sure that the Bill that’s laid next year hasn’t been discussed with anybody else before it comes to be considered by the Senedd. So, the broad principles have been discussed, but specific details of what goes into a Bill or policy instructions that inform a Bill haven’t been the subject of consultation.”¹⁰⁰

135. Rydym yn cytuno gyda CCAUC y gall problemau sylweddol ddod i'r amlwg os nad ymgynghorir ynghylch manylion deddfwriaeth berthnasol arfaethedig:

“I osgoi rhai o'r [problemau], dylai datblygiad y ddeddfwriaeth a'r manylder yn y ddeddfwriaeth gael eu trafod i ddechrau gyda'r rhai sydd â phrofiad o weithredu'r trefniadau cyfredol, fel CCAUC, cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth ger bron y Cynulliad.”¹⁰¹

136. Mae rhanddeiliaid allweddol eraill wedi egluro hefyd, ers ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, bod yr ymgysylltu ynghylch manylion y bil wedi bod yn gyfyngedig. Dywedodd Estyn wrthym:

“The Welsh Government conducted some helpful stakeholder engagement prior to the technical consultation. However, there has

¹⁰⁰ Tystiolaeth lafar, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [para 78], 18 Gorffennaf 2019

¹⁰¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, HEA 09, para 7.1

been limited communication with stakeholders about the legislative timescales going forward or opportunities to help shape the draft Bill.”¹⁰²

137. Ar gyfer diwygiadau ar y raddfa hon, credwn y byddai cyhoeddi bil drafft wedi bod yn briodol ond nodwn nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad o’r fath.

138. Rydym yn bryderus iawn y bydd hanes yn ailadrodd ei hun ac y bydd anawsterau gweithredu a phontio i’r system addysg drydyddol newydd yn cael eu gwneud yn broblem ddiangen gan ddiffyg ymgynghori ar fanylion y ddeddfwriaeth a / neu gyhoeddi bil drafft.

139. Mae nifer o randdeiliaid, gan gynnwys Estyn, wedi dadlau o blaid cyfnod gweithredu i Ddeddf 2015. Dywedodd Estyn wrthym, gan ddefnyddio datblygiad Deddf 2015 a’i hynt trwy’r Cynulliad enghraifft:

“We submitted evidence to your Committee’s Inquiry on law-making in the 4th Assembly, prior to the introduction of the [original Higher Education] Bill on the 19th June 2014 which raised concerns about the lack of consultation and engagement with the sector on detailed proposals or a Draft Bill following the close of the Technical consultation in June 2013. In our view many of the problems with the Bill that had to be ironed-out during the legislative passage or have remained, could have been avoided and dealt with more efficiently prior to its introduction.”¹⁰³

140. Rydym yn ymwybodol o’r angen, wrth drosglwyddo i reoleiddio gan y Comisiwn newydd, i beidio â cholli arbenigedd, profiad a gwybodaeth sylweddol y staff presennol yn Llywodraeth Cymru a CCAUC.

Argymhelliad 15. Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi bil addysg drydyddol drafft i alluogi rhanddeiliaid i ymgysylltu â manylion y ddeddfwriaeth arfaethedig.

Argymhelliad 16. Bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y mae’n bwriadu sicrhau parhad busnes o ran swyddogaethau beunyddiol hanfodol y cyrff rheoleiddio ac ariannu cyfredol (megis gwneud taliadau cyllid rheolaidd arferol i ddarparwyr) yn ystod y cyfnod pontio i’r Comisiwn newydd.

¹⁰² Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, HEA 03, tud 3

¹⁰³ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, HEA 05, para 8.2

Argymhelliad 17. Bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut y mae'n bwriadu sicrhau nad yw'r atgofion corfforaethol yn CCAUC a Llywodraeth Cymru yn cael eu colli wrth bontio i'r Comisiwn newydd.

Argymhelliad 18. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y bil addysg drydyddol yn darparu ar gyfer trefniadau pontio addas a bod Comisiwn cysgodol yn cael ei sefydlu cyn gynted ag sy'n ymarferol i helpu i ddarparu ar gyfer pontio'n ddidrafferth i'r corff newydd.

Argymhelliad 19. Bod Llywodraeth Cymru yn darparu copïau o werthusiadau'r flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn yr ymrwymodd iddynt ym Memorandwm Esboniadol Deddf 2015. Os na chynhaliwyd yr adolygiadau hyn, dylid darparu esboniad o'r rhesymau dros hynny.

Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
18 Gorffennaf 2019	<p>Dr David Blaney, Prif Weithredwr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru</p> <p>Bethan Owen, Dirprwy Brif Weithredwr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru</p> <p>Meilyr Rowlands, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi, Estyn</p> <p>Jassa Scott, Cyfarwyddwr Strategol, Estyn</p> <p>Yr Athro Julie Lydon, Cadeirydd, Prifysgolion Cymru</p> <p>Yr Athro Elizabeth Treasure, Dirprwy Gadeirydd, Prifysgolion Cymru</p> <p>Ben Arnold, Cynghorydd Polisi, Prifysgolion Cymru</p> <p>Maggie Griffiths, Pennaeth Cynorthwyol, Grŵp Llandrillo Menai</p> <p>Emil Evans, Dirprwy Bennaeth, Coleg Caerdydd a'r Fro</p> <p>Mike Williams, Pennaeth Cynorthwyol, Coleg Sir Gâr / Coleg Ceredigion</p> <p>Margaret Phelan, Swyddog Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru</p> <p>Dr Bethan Winter, Swyddog Polisi a Chyfathrebu, Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru</p> <p>Rob Simkins, Llywydd, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru</p> <p>Joni Alexander, Cyfarwyddwr Dros Dro, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru</p>
26 Medi 2019	<p>Kirsty Williams AM, y Gweinidog Addysg, Llywodraeth Cymru</p> <p>Huw Morris, Cyfarwyddwr y Grŵp Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cymru</p>

Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Cyferinod	Sefydliad
HEA 01	Y Coleg Merthyr Tudful
HEA 02	Coleg y Cymoedd
HEA 03	Estyn
HEA 04	NUS Wales
HEA 05	Prifysgolion Cymru
HEA 06	Coleg Caerdydd a'r Fro
HEA 07	Prifysgol De Cymru
HEA 08	Prifysgol Caerdydd
HEA 09	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
HEA 10	Undeb Prifysgol a Choleg Cymru
HEA 11	Comisiynydd y Gymraeg
HEA 12	UNISON Cymru